Ysgol Gymraeg Abercynon

# Polisi Diogelu'r Ysgol

Dyddiad: Gorffennaf 2025

Dyddiad Adolygu: Gorffennaf 2026

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

| | | |
|---|---|---|
| **Pennaeth** | **Michelle Barry** | *MBarry - Medi 2025* |
| **Swyddog Diogelu Dynodedig** | **Michelle Barry** | *MBarry - Medi 2025* |
| **Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig** | **Ioan Thomas** | *IThomas - Medi 2025* |
| **Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig** | **David Davies ac Abi Lock** | *DDavies - Medi 2025 ALock - Medi 2025* |



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

| | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|
| **Cadeirydd y Llywodraethwyr** | *Lisa Young -* | **Medi 2025** |

| | | |
|---|---|---|
| **Llywodraethwr sy'n gyfrifol am faterion Diogelu Plant** | **Lisa Young -** | **Medi 2025** |



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

| **CYNNWYS** | **TUDALEN** |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 4 |
| 2. Polisi Diogelu'r Ysgol | 5 |
| 3. Atal:<br>● Ethos, diwylliant a chwricwlwm<br>● Safonau moesegol effeithiol<br>● Gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid | 6 |
| 4. Gweithdrefnau: Rôl yr Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu | 7 |
| 5. Cydnabyddiaeth: Diffiniadau o gam-drin ac esgeuluso plant | 9 |
| 6. Adrodd a chofnodi datgeliadau neu bryderon ynghylch plentyn | 9 |
| 7. Cadw cofnodion a throsglwyddo gwybodaeth yn effeithiol | 12 |
| 8. Cefnogi disgyblion sydd mewn risg | 13 |
| 9. Defnydd diogel o'r rhyngrwyd a thechnoleg<br>ddigidol 10.Cyswllt gyda'r disgyblion<br>11. Honiadau yn erbyn staff/gwirfoddolwyr | 17<br>18<br>18 |
| 12.Recriwtio mwy diogel | 20 |
| 13.Diogelwch Safle Ysgol | 21 |
| 14.Ymweliadau addysg y tu hwnt i safle'r ysgol | 23 |
| 15.Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg | 23 |
| 16.Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg | 24 |
| ATODIADAU | 25 |

## 1. Cyflwyniad

Enw'r Ysgol: Mae _Ysgol Gymraeg Abercynon___ yn cydnabod fod:-

**1.1.** Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir fod â threfniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Rhaid i Gyrff Llywodraethu a staff ysgol ddilyn y canllawiau yma wrth gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant.

**1.2.** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar bob ysgol i rannu unrhyw bryderon â'r Awdurdod Lleol.

**1.3.** Mae dyfarniad ar y gweithdrefnau sydd yn eu lle yn yr ysgol a'i heffeithiolrwydd wrth weithredu'r gweithdrefnau hynny i ddiogelu plant rhag niwed, yn rhan o broses arolygu'r ysgol.

**1.4.** Mae Llywodraethwyr a staff Ysgol _Ysgol Gymraeg Abercynon______ yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei gwneud i ddiogelu plant. Rydyn ni'n cydnabod bod pob aelod o staff, gan gynnwys gwirfoddolwyr ac ymwelwyr, â rhan lawn a gweithredol i'w chwarae wrth amddiffyn ein disgyblion rhag niwed.

**1.5.** Mae'r holl staff ac aelodau'r Corff Llywodraethu o'r farn y dylai'r ysgol ddarparu amgylchedd gofalgar, cadarnhaol, diogel ac ysgogol, sy'n hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, corfforol a moesol y disgybl unigol. Mae'r Polisi yn cynnwys pedair prif elfen:

- Amddiffyn drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol sy'n cael eu cynnig i ddisgyblion;
- Gweithdrefnau ar gyfer adnabod achosion (neu achosion posibl) a rhoi gwybod amdanyn nhw. Mae bod mewn cysylltiad â disgyblion yn ddyddiol yn golygu bod staff yr ysgol mewn sefyllfa unigryw i weld arwyddion o gam-drin;
- Cymorth i ddisgyblion sydd o bosibl mewn perygl o gael eu cam-drin neu'u hesgeuluso; a
- Pryderon mewn perthynas â staff yr ysgol a allai gamddefnyddio eu swyddi cyfrifol.

1.6 Mae'r Polisi yma'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol gan gynnwys llywodraethwyr ysgol. Mae'n cydnabod y gall Cynorthwywyr Cynnal Dysgu, Staff Asiantaethau, Goruchwylwyr, Gofalwyr, Swyddogion Cymorth Busnes yn ogystal ag Athrawon ac unrhyw aelodau o staff neu wirfoddolwyr, fod yn bwynt datgelu cyntaf i ddisgyblion. O ganlyniad i hyn, mae gan bawb sy'n gweithio mewn lleoliad addysg, boed eu bod wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol neu fel arall, sy'n dod i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd rôl i ddiogelu plant. Dylen nhw:

● Bod yn effro i arwyddion bod disgybl wedi cael ei esgeuluso neu'i gam-drin.
● Gwrando ar ddisgyblion sy'n dweud wrthyn nhw am gam-drin. ● Rhoi gwybod am bryderon yn effeithiol ac yn unol â'r weithdrefn.

1.7 Mae'r ysgol yn cydnabod bod plant ymhlith y mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Felly, mae dyletswydd ar oedolion mewn swyddi cyfrifol i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifainc i gael eu hamddiffyn rhag cam-drin yn cael eu cymryd o ddifrif. Dylid cymryd camau effeithiol mewn ymateb i unrhyw arwyddion o gam-drin neu esgeulustod er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu o ran ystyr ehangach iechyd a lles.

**1.8** Mae gan ysgolion ddyletswydd gyfreithiol dros iechyd, diogelwch a lles disgyblion ac athrawon bob amser. Mae'r ddyletswydd gofal yn ymgorffori'r ddyletswydd i ddiogelu disgyblion rhag unrhyw fath o niwed, cam-drin neu niwsans. Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu ac Uwch Arweinwyr yw hi i ofalu y caiff y ddyletswydd ei chyflawni bob amser.

Rhaid i ysgolion allu dangos dealltwriaeth a chamau gweithredu sy'n cyfrannu at ddatblygu cymunedau cydlynol a gwydn, a hwythau'n warcheidwaid cyfrifol. Rhaid bod trefniadau yn eu lle i sicrhau diogelwch a lles disgyblion.

**2. Polisi Diogelu'r Ysgol**

**2.1** Yn unol â'r agenda Diogelu Plant, mae ein hysgol/lleoliad yn cydnabod bod Polisi Diogelu yn gofyn am olwg ehangach na'r Polisi Amddiffyn Plant traddodiadol. Mae'r canllawiau hyn yn cydymffurfio â Cadw'r Dysgwr yn Ddiogel (Mawrth 2022) a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae'r polisi yma'n berthnasol i bob lleoliad addysgol gan gynnwys ysgolion a Darpariaethau Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Nod y ddogfen yma yw hyrwyddo diogelwch a lles pob plentyn. Drwy gydol y ddogfen yma bydd y term 'plant' yn cyfeirio at unrhyw un o dan 18 oed. Mae modd defnyddio'r term 'plant' yn y polisi hwn hefyd ar gyfer disgyblion ôl-16 ac ôl-18 oed sy'n parhau i fynychu addysg amser llawn.

Dylech chi ddarllen y ddogfen yma ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, Cadw Dysgwyr yn Ddiogel a pholisïau eraill yr ysgol. Dylai staff hefyd fod yn gyfarwydd â pholisïau allweddol yr Awdurdod Lleol, yn enwedig:

● Polisi Diogelu Corfforaethol
● Cod Ymddygiad
· Polisi Chwythu'r Chwiban
· Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Mae tudalennau gwybodaeth diogelu i'r cyhoedd ar gael ar wefan yr Awdurdod Lleol. Mae gan y fewnrwyd gysylltiadau uniongyrchol â Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

www.cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk



Mae modd cyrchu ffynonellau gwybodaeth ychwanegol trwy ddolenni sydd wedi'u darparu yn Atodiad 1.

Mae'n bwysig bod yr holl aelodau o staff, gwirfoddolwyr, contractwyr ac aelodau'r Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli yn cofio: -

**NID** cyfrifoldeb unrhyw weithiwr, gwirfoddolwr, contractwr neu aelod o'r Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli yw penderfynu a oes gwir achos o gamdriniaeth neu esgeulustod. Fodd bynnag, **MAE** hi'n gyfrifoldeb ar unrhyw weithiwr, gwirfoddolwr, contractwr neu aelod o'r Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli i gymryd y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y polisi yma os ydyn nhw'n pryderu y gallai disgybl fod yn dioddef niwed a/neu gam-drin neu mewn perygl o hynny. Mae hyn hefyd yn cynnwys niwed drwy gam-fanteisio troseddol, cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, radicaleiddio, anffurfio organau cenhedlu benywod, neu gaethwasiaeth fodern.

**2.2** Mae [Enw'r Ysgol] yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i Ddiogelu Plant ac yn cefnogi'r pedair prif elfen sydd wedi'u nodi yn Adran 1.5.

**2.3** Mae'r polisi yma'n berthnasol i'r holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Mae'r polisi yma hefyd yn berthnasol i bob gweithiwr achlysurol, aelod o staff asiantaeth, gwirfoddolwr, contractwr ac aelod o'r Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli sy'n ymwneud â'n hysgol. Rhaid i bob oedolyn ar safle'r ysgol fod yn effro i Bolisi Diogelu'r Ysgol oherwydd gall unrhyw oedolyn fod yn bwynt datgelu cyntaf i blentyn. Mae angen llofnod (gyda dyddiad) gan yr holl staff ar y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad i ddangos eu bod nhw wedi darllen y ddogfen yma.

## 3. Atal

### Ethos, diwylliant a chwricwlwm

**3.1** Rydyn ni'n cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn y gellir ymddiried ynddo yn helpu i ddiogelu disgyblion. Felly bydd yr ysgol yn:-

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu hannog i siarad a deall bod staff yn barod i wrando.
- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn yr ysgol y gallan nhw fynd atyn nhw, os ydyn nhw'n poeni neu mewn trafferthion.
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer Addysg Iechyd a Lles ac Addysg Perthynas a Rhywioldeb (HWE/RSE) sy'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth neu gam-fanteisio, yn eu cymunedau eu hunain a'r gymuned seiber, ac i wybod at bwy i droi am gymorth.
- Cynnwys deunydd i helpu plant i ddatblygu agweddau realistig at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn, yn enwedig o ran sgiliau gofal plant, perthnasoedd diogel a agu plant yn rhan o'r cwricwlwm.





- Ymarfer ein dyletswydd, â ninnau'n ysgol/lleoliad, i adnabod disgyblion sy'n agored i niwed a chadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio a phob math o eithafiaeth.

### Safonau Moesegol

**3.2** Mae'r holl staff yn deall pwysigrwydd eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran modelu

ymddygiad addas a sicrhau bod plant yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi. Mae gan bob oedolyn yn yr ysgol gyfrifoldeb a rhaid iddo fod yn glir na ddylai eu hymddygiad proffesiynol a phersonol effeithio'n negyddol ar y disgyblion, yr ysgol na chymuned yr ysgol mewn unrhyw ffordd. Mae canllawiau ar safonau moesegol yn Atodiad 2.

**Gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid yn effeithiol**

**3.3** Rydyn ni, â ninnau'n ysgol, yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â rhieni/gwarcheidwaid i osgoi risgiau rhagweladwy i blant ac i weithio gyda theuluoedd mewn ffyrdd sy'n meithrin gwydnwch a chryfderau. Er mwyn sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn deall y cyfrifoldeb sydd gan yr ysgol a'r staff i amddiffyn plant, dylai'r ysgol sicrhau bod rhieni'n cael mynediad at bolisi'r ysgol yn rhan o'r broses ymsefydlu a sicrhau bod y polisi diogelu ar gael ar wefan yr ysgol. Rydyn ni'n cydnabod bod trefniadau byw pob plentyn yn wahanol a bydd y termau rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu defnyddio i ddisgrifio'r bobl y mae'r plentyn yn byw gyda nhw. Bydd yr ysgol bob amser yn cadw cofnodion clir ac yn rhoi sylw dyledus i'r trefniadau ar gyfer cyfrifoldeb rhiant/gwarcheidwaid pob plentyn.

**3.4** Er bod gan yr ysgol system asesu risg gadarn ar waith ar gyfer materion o fewn yr ysgol, rhaid cyfathrebu'n effeithiol i reoli risgiau y tu allan i gatiau'r ysgol ar y cyd. Mae'n ofynnol i rieni/gwarcheidwaid wneud eu dymuniadau ar gyfer rhyddhau neu gasglu eu plant yn glir i'r ysgol yn ysgrifenedig.

**3.5** Mae'r Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a'r NSPCC ill dau yn argymell na ddylai unrhyw berson sy'n iau nag 16 oed gael ei adael i ofalu am blentyn iau. Er nad oes isafswm oedran wedi'i osod yn y gyfraith, bydd ein hysgol yn gweithredu canllawiau awgrymedig ac ni fydd modd rhyddhau neu gasglu plant iau i unrhyw berson sy'n iau nag 16 oed. Bydd ceisiadau unigol i ystyried eithriadau i'r polisi yma yn cael eu hystyried yn ôl eu rhinweddau ac yn cael eu cofnodi'n glir; bydd angen llofnod rhiant. Heb lofnod ar gais awdurdodi perthnasol, bydd yr ysgol yn cadw at y canllawiau sydd wedi'u nodi uchod.

**4. Gweithdrefnau**

4.1 Fel sydd wedi'i nodi yn y canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel dylai'r ysgol benodi llywodraethwr penodol ar gyfer Diogelu. Bydd y llywodraethwr yma'n goruchwylio Polisi Diogelu'r Ysgol ac arferion diogelu'r ysgol ac yn darparu cyswllt ar gyfer yr Uwch Swyddogion Dynodedig ar gyfer Diogelu.





Bydd cyfrifoldebau'r llywodraethwr dynodedig hefyd yn cynnwys sicrhau bod y Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli yn cynnal adolygiad blynyddol o Bolisi Diogelu'r Ysgol a gweithdrefnau diogelu ac yn bwrw golwg ar sut mae'r ysgol yn cyflawni ei dyletswyddau diogelu. Caiff pob Llywodraethwr ei nodi'n Ymarferydd Grŵp F yn rhan o'r Safonau Diogelu Cenedlaethol. Mae gofyn iddyn nhw, a hwythau'n Ymarferwyr Grŵp F, gwblhau hyfforddiant diogelu Grŵp A cyn pen 6 mis o ddechrau'u rôl yn Llywodraethwr. Dylen nhw hefyd gwblhau'r hyfforddiant Grŵp F sy'n gysylltiedig â'u rôl yn Llywodraethwr. Yn ogystal â hyn, dylai Cadeiryddion y Cyrff Llywodraethu a'r Llywodraethwr sydd â chyfrifoldeb am faterion Diogelu gwblhau'r hyfforddiant perthnasol (megis cyfres arweinyddiaeth

trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol), Rhan 5 sef Rheoli Honiadau yn erbyn Staff/Pryderon Proffesiynol, yn ogystal â hyfforddiant dysgu a datblygu fel rhianta corfforaethol. Byddan nhw hefyd yn rhannu manylion yr hyfforddiant yma gydag aelodau'r corff llywodraethu ac yn annog eu cydweithwyr i fynychu'r hyfforddiant, a hynny gan fod diogelu yn berthnasol i bawb.

Llywodraethwr Diogelu [enw'r ysgol] yw [enw a manylion cyswllt]

**Yr Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu**

**4.2** Byddwn ni'n dilyn Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r holl brotocolau lleol mewn perthynas â diogelu sydd wedi'u cymeradwyo gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

**4.3** Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ganddi Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu, sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant Diogelu Grŵp C yn unol â lefel ei gyfrifoldeb, yn ogystal â nodi trefniadau clir ar gyfer eilydd yn absenoldeb y swyddog hwnnw (gweler Atodiad 7). Bydd y trefniadau yma'n cael eu hailadrodd ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal - mae'r rolau'n bendant yn wahanol ond mae modd i'r un person gyflawni'r ddwy. Bydd [enw'r ysgol] yn anelu at gael o leiaf dau berson wedi'u hyfforddi i gyflawni rôl Uwch Swyddog Dynodedig, gan gynnwys y Pennaeth. Rhaid sicrhau bod modd cysylltu ag o leiaf un aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi hyd at Lefel 3 ar bob adeg pan fydd yr ysgol ar agor.

**4.4** Yn [enw'r ysgol], y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am Ddiogelu. Ein Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu yw [enw'r personau]. Mae'r Uwch Swyddog Dynodedig yn gyfrifol am sicrhau:

- Bod prosesau diogelu o fewn eu hysgol/lleoliad yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol.
- Bod yr holl staff yn cael gwybod am eu cyfrifoldebau diogelu yn rhan o'r broses sefydlu a'u bod nhw'n cwblhau'r holl hyfforddiant perthnasol (gweler Atodiad 7); ac yn
- Cadw cofnod ysgrifenedig/mae modd ei argraffu o lofnodion/e-lofnodion staff yn dystiolaeth eu bod nhw wedi derbyn, darllen a deall y Polisi Diogelu.
- Bod pob aelod o staff yn cael nodyn atgoffa blynyddol o bwysigrwydd bod yn effro i ddiogelu, y gweithdrefnau i'w dilyn a safonau ymddygiad





moesegol sy'n ddisgwyliedig gan aelodau staff mewn perthynas â diogelwch a lles disgyblion.
- Rhyngweithio priodol gyda'r Gwasanaethau i Blant a phartneriaid eraill gan rannu gwybodaeth yn effeithiol.
  - Mynd i bob cyfarfod aml-asiantaeth ar gyfer plant a rhannu gwybodaeth ysgrifenedig briodol gyda'r cyfarfod yn unol ag amserlenni.
- Cyfrannu at, a bod yn gyfrifol am weithredoedd yr ysgol o fewn cynlluniau gofal a chymorth i blant.
- Bod cefnogaeth a chyngor yn cael eu darparu i bob aelod o staff mewn perthynas â phryderon am les a diogelwch plant.
- Sicrhau bod dysgu amddiffyn plant ar gael i holl staff yr ysgol. ● Cywirdeb ac effeithlonrwydd cofnodion diogelu plant (gweler Adran 7).

4.5 Mae'r ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod pob aelod o staff a phob aelod o'r Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli yn gwybod:-

· Enw'r Uwch Swyddog Dynodedig a'i rôl a'i gyfrifoldebau sydd wedi'u nodi uchod
● Y protocol a'r gweithdrefnau o fewn yr ysgol ar gyfer diogelu disgyblion. · Arwyddion a dangosyddion camdriniaeth, esgeulustod neu niwed posibl. · Bod ganddyn nhw gyfrifoldeb unigol am atgyfeirio pryderon amddiffyn plant yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Gweithdrefnau Diogelu Cymru.
· Sut i fynd i'r afael â'r pryderon hynny gyda'r Dirprwy Swyddog Diogelu Dynodedig pan nad yw'r Uwch Swyddog Diogelu Dynodedig ar gael. · Bod yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal/Plant sydd â Phrofiad o Dderbyn Gofal yn parhau i fod yn agored i niwed a bydd angen lefel gyson o gymorth, gofal a monitro.

**5. Cydnabyddiaeth: Diffiniadau o Gam-drin ac Esgeuluso Plant**

**5.1** Bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob aelod o staff yn deall i'r angen i fod yn effro i arwyddion o gam-drin ac yn gwybod sut i ymateb i ddisgybl a allai ddatgelu ei fod yn dioddef camdriniaeth. Mae diffiniadau o gam-drin yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru i'w gweld yn Atodiad 3.

**5.2** Mae'r ysgol hefyd yn cydnabod bod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn rhoi arweiniad pellach ar arwyddion a symptomau cam-drin ac esgeulustod.

**6. Adrodd a chofnodi datgeliadau neu bryderon ynghylch plentyn**

**6.1** Fel sydd wedi'i nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol, mae gan bob gweithiwr sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran ddyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw am les a/neu amddiffyn plant ac oedolion. Mae'r ddyletswydd i roi gwybod yn ofyniad cyfreithiol a gall fod â goblygiadau difrifol i'r gweithiwr sy'n methu ag adrodd yn briodol. Gall pryderon diogelu ymwneud ag aelod o'r gymuned neu





aelod o staff, gwirfoddolwr neu unrhyw berson sydd mewn swydd gyfrifol yn ein hysgol/lleoliad.

**6.2** Os oes gan blentyn anaf sy'n anghydnaws â'r esboniad neu os yw wedi gwneud honiad sy'n nodi risg uniongyrchol o niwed, bydd yr ysgol yn cysylltu â'r Heddlu a'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor, a Chymorth (IAA)/Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH) ar unwaith dros y ffôn. Bydd yr ysgol yn mynd ar drywydd hyn drwy gyflwyno ffurflen atgyfeirio ysgrifenedig i IAA/MASH yn dilyn trafodaeth ffôn yn unol â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Does dim angen caniatâd y rhieni/gwarcheidwaid i rannu gwybodaeth gyda Gwasanaethau i Blant os oes pryderon sy'n nodi risg uniongyrchol o niwed. Dylai enw'r aelod o staff a ddarparodd yr wybodaeth i ddechrau cael ei gofnodi'n glir ar y ffurflen atgyfeirio. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd atgyfeirwyr am drafod yr opsiwn o barhau'n anhysbys. Mae Atodiad 4 yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r broses i'w dilyn pan fydd angen i'r ysgol/lleoliad yma wneud atgyfeiriad i'r IAA/MASH.

**6.3** Os bydd pryder amddiffyn plant yn codi am blentyn sydd â gweithiwr penodedig o

awdurdod lleol arall, bydd yr ysgol yn sicrhau bod y gweithiwr a neilltuwyd yn cael gwybod. Dylid cyflwyno'r atgyfeiriad i'r awdurdod lleol sy'n gartref i'r plentyn a'r awdurdod lleol sy'n atebol i'r achos er mwyn iddyn nhw benderfynu pwy sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd ag unrhyw ymholiadau perthnasol.

**Os yw plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed, rhaid i staff gysylltu â'r Gwasanaethau Brys trwy ffonio 999 ac yna dilyn y llwybr atgyfeirio arferol. Rhaid i ddiogelwch uniongyrchol y plentyn fod yn flaenoriaeth bob amser**.

| | Atgyfeiriada u dros y ffôn | E-bost | Trwy'r post |
|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 01443 743730 | CarfanGCC@rctcbc.gov.uk | Gwasnaethau i Blant Tŷ Catrin Uned 1 Ystâd Ddiwydiannol Maritime Pontypridd, CF37 1NY |
| Merthyr Tudful | 01443 743730 | Childrens.mash@merthyr.gov. uk | Gwasanaethau Plant Y Ganolfan Ddinesig Stryd y Castell Merthyr Tudful, CF47 8AN |

Pen-y-bont ar Ogwr
01656 642320
mashcentra@bridgend.gov.uk Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH)
Ravens Court
Brewery Lane
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 4AP

10

Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Diogelu
Safeguarding Board

**Os gwneir honiad gan blentyn, fel ysgol byddwn yn:**

**Derbyn**

- Gwrando yn ofalus ar yr hyn sy'n cael ei ddweud, heb ddangos sioc nac anghrediniaeth. Derbyniwch yr hyn mae'r plentyn yn ei ddweud. Efallai y byddwch chi'n adnabod y plentyn ac yn gwybod nad yw bob tro'n dweud y gwir, fodd bynnag, **PEIDIWCH** â gadael i'ch gwybodaeth am y plentyn yma annilysu ei honiad a pheidiwch â rhagfarnu.

- **PEIDIWCH** â cheisio ymchwilio i'r honiad. Eich dyletswydd fydd gwrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a throsglwyddo gwybodaeth.

**Cysuro**

.

- Rhowch ddigon o sicrwydd i'r plentyn. Byddwch yn onest bob amser. PEIDIWCH â gwneud addewidion nad oes modd eu cadw, er enghraifft: 'Fe wnâi aros gyda ti', neu 'Bydd popeth yn iawn nawr'
- Lleddfwch euogrwydd os yw'r plentyn yn cyfeirio ato. Er enghraifft, mae modd dweud: 'Dwyt ti ddim ar fai. Nid dy fai di yw hyn'.

- **PEIDIWCH** ag addo cyfrinachedd. Mae gennych chi ddyletswydd gyfreithiol i drosglwyddo'r wybodaeth ac mae angen i'r plentyn wybod hyn.

**Ymateb**

- Gofynnwch gwestiynau - efallai y bydd angen gwneud hynny mewn rhai achosion. Fodd bynnag, nid cyfle yw hwn i holi'r plentyn a chwestiynu'n fanwl ac estynedig. Dim ond pwyntiau amlwg yr honiad y plentyn sydd angen i chi fod yn effro iddyn nhw. Rhaid i unrhyw gwestiynau fod yn agored a pheidio ag arwain y plentyn mewn unrhyw ffordd.

- Peidiwch â beirniadu'r troseddwr ar lafar oherwydd mae'n bosibl y bydd gan y plentyn ymlyniad emosiynol cadarnhaol tuag at y person o hyd.

- **PEIDIWCH** â gofyn i'r disgybl ailadrodd ei honiad i aelod arall o staff. Os oes gofyn iddo ailadrodd, efallai y bydd y plentyn yn teimlo nad yw'n cael eu credu a/neu efallai y bydd ei atgof o'r hyn a ddigwyddodd yn newid.

**Cofnod**

- Gwnewch nodiadau cyn gynted â bo modd. Cofnodwch eiriau y plentyn - peidiwch â'u hail-gyfieithu i derminoleg oedolion na cheisio gwneud synnwyr o strwythur yr hyn a ddywedodd y plentyn. Peidiwch â chael eich tramgwyddo gan unrhyw iaith neu eiriau sarhaus mae'r plentyn yn eu defnyddio i ddisgrifio'r gamdriniaeth.

- Sicrhewch fod eich enw chi, yr amser a'r dyddiad ar eich nodiadau a pheidiwch â'u dinistrio rhag ofn y bydd eu hangen ar Lys.





- Mae [Enw'r Ysgol] yn defnyddio [enw system e.e., My Concern] i gofnodi materion a phryderon diogelu ac amddiffyn plant.

- Os oes modd, gwnewch ddiagram i ddangos lleoliad unrhyw anafiadau sydd gan y plentyn ond **PEIDIWCH** â gofyn i'r plentyn dynnu unrhyw ddillad i weld anafiadau ar ei gorff.

- Cofnodwch ddatganiadau a phethau rydych chi'n sylwi arnyn nhw yn hytrach na'ch dehongliadau neu dybiaethau.

**Camau Terfynol**

- Ar ôl i chi ddilyn y canllawiau uchod, trosglwyddwch yr wybodaeth ar unwaith i'r Uwch Swyddog Dynodedig. Yna bydd nifer o opsiynau ar gael i'r plentyn gan gynnwys cysylltu â'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor, a Chymorth perthnasol yn y Gwasanaethau i Blant i ofyn am eu cyngor ynghylch beth ddylai ddigwydd nesaf.

**Cyfrinachedd**

**6.4** Mae angen deall materion cyfrinachedd os yw plentyn yn datgelu ei fod yn cael ei

gam-drin. Efallai y bydd plentyn ond yn teimlo'n hyderus i ymddiried mewn aelod o staff os yw'n teimlo na fydd yr wybodaeth yn cael ei datgelu i unrhyw un arall. Fodd bynnag, mae gan holl staff yr ysgol gyfrifoldeb proffesiynol i rannu gwybodaeth berthnasol am amddiffyn plant gyda'r asiantaethau statudol pan fo plentyn mewn perygl o/neu'n profi niwed.

Bydd staff ysgolion yn ymdrin â hyn yn sensitif ac yn esbonio i'r plentyn bod yn rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r bobl briodol er mwyn helpu. Bydd aelodau staff yn tawelu meddwl y plentyn a dweud wrtho na fydd ei sefyllfa yn dod yn wybodaeth gyffredin yn yr ysgol.

Bydd staff yr ysgol yn effro i'r posibilrwydd y gallai fod wedi cymryd cryn ddewrder ar ran y plentyn i ddatgelu'r wybodaeth ac y gallai hefyd fod yn profi emosiynau cymhleth gan gynnwys teimladau o euogrwydd, cywilydd, anffyddlondeb (os yw'r camdriniwr yn rhywun agos) a phoen.

**6.5** Bydd yr ysgol yn sicrhau mai dim ond y rheini sydd â chysylltiad proffesiynol e.e. yr Uwch Swyddog Penodedig a'r Pennaeth, sy'n cael mynediad at y cofnodion amddiffyn plant. Ar bob adeg arall, dylen nhw gael eu cadw'n ddiogel ac ar wahân i brif ffeil y disgybl fel sydd wedi'i nodi yn Adran 7.

## 7. Cadw cofnodion a throsglwyddo gwybodaeth yn effeithiol

**7.1.** Bydd yr ysgol yn sicrhau bod unrhyw bryderon sy'n cael eu hadrodd yn cael eu cofnodi trwy system electronig addas a diogel fel 'My Concern' neu fod ganddi ddull





cadw cofnodion diogel arall. Bydd yr holl gofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo. Dim ond aelodau o staff sydd ag awdurdod perthnasol megis yr Uwch Swyddog Dynodedig a'r Pennaeth ddylai fod â mynediad atyn nhw.

**7.2** Bydd pryderon yn cael eu rhannu â gweithwyr proffesiynol perthnasol sy'n ymwneud â'r plentyn, ond fydd y cofnodion ddim ar gael heb awdurdod yr Uwch Swyddog Penodedig neu'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad.

**7.3** Bydd cofnodion clir o bryderon am blant yn cael eu cadw mewn trefn gronolegol. Bydd hyn yn gymorth i weld patrymau o bryderon a dogfennu ymatebion rhieni i bryderon pan fyddan nhw'n codi. Mewn achosion o bryder parhaus, lle nad yw rhieni'n cydnabod yr effeithiau ar y plentyn neu'n cymryd camau ystyrlon i amddiffyn y plentyn, mae modd parhau i atgyfeirio at y Gwasanaethau i Blant heb ganiatâd y rhieni. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r rhieni/gwarcheidwaid am unrhyw bryderon ac yn sicrhau eu bod nhw'n effro i fwriad yr ysgol i wneud atgyfeiriad a'r rhesymau pam oni bai y byddai hynny'n rhoi'r plentyn mewn perygl pellach o niwed. Bydd yr ysgol yn dogfennu'r trafodaethau yma gyda rhieni/gwarcheidwaid i ddangos yr ymdrechion sydd wedi digwydd i'w cynnwys nhw yn y broses.

**7.4** Bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â gwneud cofnod o bryder yn ysgrifennu ac yn llofnodi ei adroddiad ei hun (yn ysgrifenedig neu'n electronig) ac yn deall nad oes modd llofnodi a chytuno ar gofnod cydweithiwr.

**7.5** Bydd yr ysgol yn trosglwyddo unrhyw wybodaeth diogelu sydd eisoes yn bodoli

ar gyfer disgybl sy'n gadael i'r ysgol newydd ar unwaith ac, os yw'n briodol, yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau i Blant am drosglwyddiad y disgybl. Dylai'r Gwasanaethau i Blant gael gwybod am drosglwyddiad unrhyw ddisgybl sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, Plentyn sy'n Derbyn Gofal neu ddisgybl sy'n hysbys i'r Gwasanaethau i Blant ar hyn o bryd. Bydd yr Uwch Swyddog Dynodedig yn sicrhau bod yr ysgol sy'n derbyn y disgybl yn gwbl effro i unrhyw bryderon diogelu a bod y ffeil yn cael ei throsglwyddo mewn modd diogel a phriodol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. Bydd y broses o drosglwyddo'r cofnodion yn cydymffurfio â gofynion Canllawiau Awdurdodau Lleol ar Drosglwyddo Dogfennau Amddiffyn Plant (Gweler atodiad 6).

## 8. Cefnogi disgyblion sydd mewn risg

### Polisi Ymddygiad yr Ysgol a Dyletswydd PREVENT (Radicaleiddio)

**8.1** Rydyn ni'n cydnabod y gallai plant sydd mewn perygl, sy'n wynebu camdriniaeth neu sy'n dyst i drais neu gamdriniaeth pobl eraill, gael eu heffeithio'n drom gan hyn. Efallai mai'r ysgol yw'r unig elfen sefydlog, sicr a chyson ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, pan fyddan nhw yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn herfeiddiol neu efallai na fyddan nhw'n canolbwyntio. Mae'r ysgol yn cydnabod bod unrhyw ddisgybl sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd neu'n flaenorol gan yr





awdurdod lleol, yn parhau i fod yn hynod agored i niwed ac efallai y bydd angen cymorth a monitro ychwanegol arno.

Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r disgybl trwy gynnwys y cwricwlwm i annog hunan-barch a hunan-gymhelliant.

Mae ethos yr ysgol

- yn hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel ac yn rhoi ymdeimlad o gael eu gwerthfawrogi i ddisgyblion.

- Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn sicrhau bod yr holl staff yn cytuno ar ddull gweithredu cyson sy'n canolbwyntio ar hybu ymddygiad cadarnhaol ac atgyweirio perthnasoedd. Rydyn ni'n canolbwyntio ar beidio â niweidio ymdeimlad yr unigolyn o hunanwerth. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i sicrhau bod y disgyblion yn gwybod bod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol, ond eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi ac yn deall nad ydyn nhw'n gyfrifol am unrhyw gamdriniaeth sydd wedi digwydd.

**8.2** Ers cyflwyno Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015, mae dyletswyddau penodol wedi'u gosod ar awdurdodau lleol a darparwyr addysg i roi sylw dyledus i'r angen i atal pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth. Mae staff yn yr ysgol yma wedi dilyn hyfforddiant PREVENT perthnasol yn unol â dyletswyddau PREVENT a byddan nhw'n effro i ganllawiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Gwrthsafiad a Pharch. Mae Uwch Swyddog Dynodedig yr ysgol ar gyfer Amddiffyn Plant yn deall y broses atgyfeirio i'r Panel Sianelu.

Mae ein hysgol/lleoliad yn gwerthfawrogi hawliau sylfaenol rhyddid i lefaru, mynegiant o gredoau ac ideoleg a goddefgarwch tuag at eraill sef gwerthoedd craidd

ein cymdeithas ddemocrataidd. Fodd bynnag, daw cyfrifoldebau i bob hawl ac ni fydd rhyddid i lefaru, neu gredoau a luniwyd i drin y rhai sy'n agored i niwed neu sy'n hyrwyddo niwed neu gasineb tuag at eraill, yn cael eu goddef. Rydyn ni bob amser yn ceisio amddiffyn ein disgyblion a'n staff rhag pob neges a ffurf ar eithafiaeth ac ideolegau. Mae ein hysgol/lleoliad yn glir y bydd camfanteisio a radicaleiddio yn cael eu hystyried yn bryder diogelu ac yn cael eu cyfeirio at yr asiantaethau diogelu priodol. Wrth gwblhau Ffurflen atgyfeirio PREVENT dylid anfon ffurflenni C1/RHF at y garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Hwb Diogelu Amlasiantaeth hefyd. Dylai'r atgyfeiriad yma wneud yn eglur bod atgyfeiriadau diogelu a PREVENT wedi'u cynnal. Bydd hyn yn sicrhau cyfathrebu cyflym rhwng carfanau diogelu a Gwrthderfysgaeth er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r mater sy'n peri pryder. (Gweler Atodiad 3 a 4).

**8.3** Dylai ysgolion sefydlu mannau diogelu lle bo modd i blant a phobl ifainc ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys brawychiaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg brawychwyr, a dysgu sut i herio'r syniadau yma. Nid bwriad dyletswydd PREVENT yw cyfyngu trafodaeth ar y materion yma. Dylai ysgolion, fodd bynnag, fod yn effro i'w dyletswyddau presennol i wahardd egwyddorion gwleidyddol a



sicrhau cydbwysed o ran materion gwleidyddol. Mae adrannau 406 a 407 o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod y dyletswyddau yma ar ysgolion a gynhelir.

**8.4** Bydd rhaid i ysgolion benderfynu p'un ai yw siaradwyr gwadd yn briodol neu'n addas. Ar brydiau, mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion archwilio cefndir neu gynnal gwiriadau. Os yw ysgolion yn ei chael hi'n anodd, dylen nhw gysylltu â'r ALI am gyngor a chymorth. Gweler Atodiad 5.

**8.5** Mae'r ysgol yn cydnabod, wrth i blant dyfu a datblygu, y byddan nhw'n dod yn fwy annibynnol ac yn ymreoli. Fodd bynnag, mae'r ysgol hefyd yn cydnabod bod disgyblion yn parhau i fod yn blant hyd nes eu bod yn 18 oed ac y bydd angen cymorth o hyd i ddatblygu ym mhob agwedd o'u bywydau gan gynnwys ffurfio perthnasoedd cadarnhaol a bod yn effro i ddiogelwch eu hunain. O ran disgyblion sy'n aros yn yr ysgol y tu hwnt i 18 oed, bydd yr ysgol yn parhau i roi cymorth a, lle bo angen, yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol o ran amddiffyn oedolion.

**8.6** Byddwn ni'n cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi ein disgyblion, megis Gwasanaethau i Blant, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol, Gwasanaethau Cynnal Ymddygiad a'r Gwasanaeth Lles Addysg.

**Dad-ddwysáu a Thrin Cadarnhaol**

**8.7** Gall cyswllt corfforol amrywio o arwain plentyn i ddiogelwch â'i law, i ddisgybl yn cael ei atal yn gorfforol er mwyn atal trais ac anaf iddo'i hun neu i eraill. Does dim diffiniad cyfreithiol o rym rhesymol, ond dylai fod y lleiafswm sydd ei angen i gyflawni'r canlyniad dymunol.

**8.8** Mae'r ysgol yma'n mabwysiadu polisi'r awdurdod lleol mewn perthynas â dad-ddwysáu, trin yn gadarnhaol ac ymyriad corfforol cyfyngol. Yn hyn o beth, mae'r Polisi yn gyson â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ymyrraeth Ddiogel ac Effeithiol

– defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau 097/2013. Bydd ein hysgol yn sicrhau bod ei holl aelodau o staff sy'n ymyrryd yn gorfforol ag unrhyw ddisgybl wedi cael lefelau priodol o hyfforddiant a chyngor gan yr awdurdod lleol.

**8.9** Bydd yr ysgol yn sicrhau bod pob ataliaeth gorfforol yn cael ei gofnodi'n briodol a'i roi ar waith yn unol â threfniadau yr Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn sicrhau bod modd cynnal trosolwg archwilio yn ganolog. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid os a phryd y mae ymyriadau corfforol wedi digwydd.

**8.10** Y technegau mae'r awdurdod lleol wedi'u mabwysiadu yw'r rhai sydd wedi'u cymeradwyo gan system Team Teach/PBS ar ddad-ddwysáu ac ymyrraeth gorfforol gyfyngedig. Rhaid i unrhyw honiad o ymyriad corfforol amhriodol gyda phlentyn gael ei adrodd i'r Gwasanaethau i Blant yn unol â chanllawiau lleol yn ymwneud â honiadau yn erbyn gweithwyr proffesiynol (Adran 11).



Mae'r broses yma'n cydymffurfio â'r gofynion sydd wedi'u nodi yn Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru.

**Bwlio**

**8.11** Mae gan bob person yn Ysgol (ENW) yr hawl i ddysgu, heb ofni cael ei fwlio, pa ffurf bynnag y gall y bwlio'i chymryd. Gall bwlio fod yn gorfforol fel taro neu gicio; cymryd eiddo; aflonyddu rhywiol; galw enwau; sarhau a/neu ledaenu sïon.

**8.12** Mae ein polisi ar fwlio wedi'i osod mewn dogfen ar wahân/polisi ymddygiad yr ysgol, yn unol â Chanllawiau Hawliau, Parch, Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru (2019).

**8.13** Mae bwlio gwahaniaethol yn cysylltu materion diogelu â'r agenda cydraddoldeb ehangach. Gweler Adran 16 am ragor o fanylion. Mae'r ysgol yn cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol i roi gwybod i'r awdurdod lleol am bob achos gwahaniaethol. Am ragor o arweiniad, trowch at Atodiad 3.

**Dull Gweithredu Amlasiantaeth**

**8.14** Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn nogfen Cadw Dysgwyr yn Ddiogel, bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r Gwasanaethau i Blant os yw disgybl ar y Gofrestr Amddiffyn Plant: -

- Wedi'i wahardd, naill ai am gyfnod penodol, neu'n barhaol
- Yn absennol o'r ysgol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod (neu un diwrnod ar ôl penwythnos)

**8.15** Bydd yr ysgol yn gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau perthnasol ac yn cydweithredu gydag ymholiadau yr asiantaethau hynny ynghylch materion amddiffyn plant, gan gynnwys presenoldeb mewn cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol ac adolygu, a grwpiau craidd, a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i gyfarfodydd o'r fath.

**Trais yn erbyn menywod**

**8.16** Mae (Enw'r Ysgol) yn effro i'r ddeddfwriaeth cam-drin domestig sydd ar waith yng Nghymru - Gorchymyn Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ogystal â chanllawiau'r Swyddfa Gartref yn rhan o Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, sy'n nodi y dylai plant sy'n byw gyda cham-drin domestig gael eu hystyried yn ddioddefwyr. Rydyn ni'n nodi bod disgyblion sy'n byw mewn sefyllfaoedd lle mae cam-drin domestig yn bresennol yn fwy tebygol o ddioddef trawma, teimlo ofn neu'n bryderus ac yn llai debygol o gyflawni yn yr un modd ag y mae disgyblion sydd ddim yn wynebu'r sefyllfaoedd yma. Mae ein hysgol ni wedi ymrwymo i ymateb i'r disgyblion yma gan ystyried polisïau diogelu ac amddiffyn plant.



**8.17** Mae ein hysgol ni'n gweithio'n agos gyda swyddogion Heddlu De Cymru er mwyn ymateb i ddisgyblion sydd efallai'n wynebu cam-drin domestig yn y cartref yn rhan o weithdrefnau 'Operation Encompass'. Os yw swyddogion yr Heddlu yn mynd i eiddo lle caiff cam-drin domestic ei nodi a bod plant yn bresennol, neu wedi'u cofnodi fel unigolion sy'n byw yn y cyfeiriad, yna byddan nhw'n cyflwyno adroddiad Operation Encompass i'r awdurdod lleol perthnasol y bore canlynol.

**8.18** Mae'r adroddiad yn cynnwys manylion y cyflawnwr honedig a'r dioddefwr, ynghyd â manylion y rheswm dros gyswllt yr heddlu. Pwrpas yr adroddiad yw galluogi ysgolion i ddeall pam ei bod hi'n bosibl bod disgyblion yn teimlo'n bryderus neu'n isel a nodi bod angen cymorth lles priodol pan fydd ei angen fwyaf.

**9. Defnydd diogel o'r rhyngrwyd a thechnoleg ddigidol**

**9.1** Mae'r ysgol yn cydnabod bod defnydd o'r Rhyngrwyd, dyfeisiau amlgyfrwng a chyfleusterau delweddu digidol mewn amgylchedd dysgu modern yn rhan o'r gofynion beunyddiol. Fodd bynnag, bydd diogelwch disgyblion yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r ysgol. Rhaid i bob aelod o staff gydymffurfio â Pholisi Defnydd Diogel o'r Rhyngrwyd yr Awdurdod Lleol a bod yn effro i'r mecanweithiau a'r gofynion diogelwch sydd wedi'u cynnwys yn holl adnoddau TG yr ysgol, yn unol â Safonau Digidol Llywodraeth Cymru.

**9.2** Mae'r holl staff yn deall mai dim ond pan fydd systemau goruchwylio ac archwilio priodol ar waith y dylai disgyblion ddefnyddio unrhyw eitemau sy'n gallu defnyddio'r Rhyngrwyd neu greu delweddau digidol.

**9.3** Rhaid i bob dyfais ddigidol sy'n cael ei defnyddio i dynnu lluniau o blant a'u cadw neu brosesu berthyn i'r ysgol a chydymffurfio â gofynion diogelwch TG. Bydd pob gweithgaredd addysgol sy'n ymwneud â defnyddio TG yn defnyddio offer yr ysgol yn unig. Fydd dim hawl gan ddisgyblion gael mynediad uniongyrchol i eitemau sydd heb fod yn destun prawf diogelwch TG yr ysgol. Rhaid cael gwared ar bob eitem o TG yr ysgol yn unol â pholisi'r Awdurdod Lleol pan nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio mwyach.

**9.4** Dylai aelodau o staff e-bostio disgyblion am faterion sy'n ymwneud â'r ysgol yn unig. Rhaid defnyddio cyfrif e-bost sy'n rhan o barth rhwydwaith diogel yr ysgol ar

ddyfais sy'n gysylltiedig â gwaith. Os nad oes gan aelodau o staff fynediad at ddyfais sy'n gysylltiedig â gwaith, yna mae'n rhaid cyfathrebu am faterion sy'n ymwneud â'r ysgol drwy gyfrif e-bost sy'n rhan o barth rhwydwaith diogel yr ysgol. Does dim hawl gan aelodau o staff ddefnyddio cyfrifon e-bost personol i gyfathrebu â disgyblion a does dim modd defnyddio offer yr ysgol at ddefnydd personol. Mae hyn yn darparu amddiffyniad ychwanegol ar gyfer diogelwch delweddau disgyblion ac yn ailddatgan y cyfrifoldebau llym a ddaw yn sgil creu delweddau digidol o blant.

**9.5** Os daw aelod o staff ag unrhyw eitem TG personol (gan gynnwys ffonau symudol) i safle'r ysgol, cyfrifoldeb yr aelod o staff yw sicrhau nad yw'r eitemau hyn



yn cynnwys unrhyw ddeunydd anaddas. Pe bai eitemau personol yn cael eu colli neu eu dwyn, mae eu cynnwys yn parhau i fod yn gyfrifoldeb yr aelod o staff a ddaeth â'r ddyfais i safle'r ysgol.

**9.6** Mae'n ofynnol i bob aelod o staff ymgyfarwyddo â Pholisi Cyfryngau Cymdeithasol yr Awdurdod Lleol/Ysgol. Mae gwefannau rhwydweithio cymdeithasol yn rhan o ddiwylliant beunyddiol yr amgylchedd seiber a bydd pob aelod o staff yn hyrwyddo defnydd diogel o'r rhyngrwyd i bob disgybl. Bydd personél sydd wedi'u hyfforddi'n briodol ynghylch Diogelwch Rhyngrwyd a defnydd diogel o eitemau'r cyfryngau yn cael eu croesawu'n rhan o'r cwricwlwm. Bydd aelodau o staff yn sicrhau nad yw unrhyw ddefnydd personol o wefannau rhwydweithio cymdeithasol yn amharu mewn unrhyw ffordd ar yr ysgol na'u safonau proffesiynol. Dylid dwyn unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad aelod o staff i sylw'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad ar unwaith.

**9.7** Bydd unrhyw ymgais gan ddisgybl i gysylltu ag aelodau o staff drwy wefannau o'r fath yn cael ei adrodd ar unwaith i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad neu'r Uwch Swyddog Dynodedig. Yna bydd disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid yn derbyn cyngor ynghylch ffiniau proffesiynol a diogelwch disgyblion.

**9.8** Pe bydd unrhyw amheuaeth bod unrhyw ddyfais amlgyfrwng neu gyfrifiadur yn cynnwys delweddau neu gynnwys anaddas, dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad neu'r Uwch Swyddog Dynodedig ar unwaith. Os yw'r delweddau a/neu'r cynnwys yn codi pryder amddiffyn plant, ceisiwch gyngor ar unwaith gan Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu (Addysg) er mwyn deall a oes angen ystyried y pryderon yn unol ag Adran 5 o Weithdrefnau Diogelu Cymru – Diogelu Honiadau/Pryderon ynghylch Ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi cyfrifol (gweler Adran 11). Bydd y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad neu'r Uwch Swyddog Dynodedig hefyd yn cysylltu â'r adran TG Corfforaethol.

**10. Cyswllt gyda'r disgyblion**

**10.1** Bydd yr holl aelodau o staff, gwirfoddolwyr ac aelodau'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli yn sicrhau eu bod nhw'n parhau i fod yn effro i gyfrifoldeb eu swydd o fewn strwythur yr ysgol a phŵer eu swydd o ran canfyddiad disgyblion a'u teuluoedd. Rhaid i bob cyswllt â disgyblion y tu hwnt i'r ysgol gael ei reoli'n briodol a chael ei gyfathrebu'n glir o fewn yr ysgol ac i rieni/gwarcheidwaid y disgybl. Pe bydd angen cysylltu â disgybl dros y ffôn, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael gwybod o flaen llaw.

**10.2** Bydd holl aelodau o staff yr ysgol yn sicrhau nad yw eu rhifau ffôn personol a'u

manylion cyswllt yn hysbys i ddisgyblion nac yn cael eu defnyddio ganddyn nhw. Pe bydd disgybl yn cael mynediad at unrhyw fanylion o’r fath bydd yr aelod o staff yn rhoi gwybod i'r Uwch-swyddog Dynodedig neu’r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn fater o frys. Pe bai unrhyw aelod o staff, gwirfoddolwr neu aelod o'r corff llywodraethu yn cael gwybod bod achos o gyswllt uniongyrchol sydd ddim yn ymwneud â'r ysgol rhwng oedolion o fewn yr ysgol a disgyblion y tu hwnt i oriau ysgol wedi digwydd, dylid rhoi gwybod i'r Uwch-swyddog Dynodedig neu’r



Pennaeth/Arweinydd Lleoliad ar unwaith. Os bydd cyswllt anaddas, gall hyn arwain at gychwyn ar y broses sydd wedi'i nodi yn Adran 5, Gweithdrefnau Diogelu Cymru - Honiadau/Pryderon Diogelu am Ymarferwyr a'r rhai sydd mewn swyddi cyfrifol (gweler Adran 11).

**10.3** Os bydd aelod o staff yn dod i gysylltiad â disgyblion y tu hwnt i'r ysgol oherwydd swydd neu swydd wirfoddoli, byddan nhw'n rhoi gwybod am y cyswllt yma i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad.

**11. Honiadau yn erbyn Staff/Gwirfoddolwyr**

**11.1** Bydd yr Uwch Swyddog Dynodedig a’r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn sicrhau eu bod yn gwbl effro i’r ddeddfwriaeth a’r canllawiau perthnasol mewn perthynas â’r gweithdrefnau sydd eu hangen pan caiff honiad yn erbyn gweithiwr proffesiynol ei wneud. Byddan nhw hefyd yn sicrhau bod yr holl staff yn effro i'w dyletswydd i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddyn nhw.

**11.2** Rhaid i bob aelod o staff sicrhau bod unrhyw honiad ynghylch oedolyn sy’n gweithio gyda phlant yn cael ei ddwyn i sylw y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn syth. Bydd yr oedolion hynny'n cynnwys aelodau o staff, gwirfoddolwyr, aelodau'r corff llywodraethu/pwyllgor rheoli, gweithwyr neu gontractwyr achlysurol, a’r staff hynny sydd ddim ar safle’r ysgol ond sy’n dod i gysylltiad â phlant h.y. y rhai sy'n cludo plant i'r ysgol a gartref, hebryngwyr croesfannau ysgol ac ati. Os bydd rhywun yn gwneud honiad am y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad, dylid rhoi gwybod i Gadeirydd y Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli. Dylai'r holl Gadeiryddion felly fod wedi mynychu hyfforddiant Rheoli Honiadau yn Erbyn Staff cyn gynted â phosibl ar ôl eu penodi.

**11.3** Bydd y Pennaeth/Cadeirydd y Corff Llywodraethu yn cysylltu â Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu (Addysg) i drafod y camau nesaf yn unol â Chanllawiau Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

**11.4** Os oes honiad/pryder ynghylch y Pennaeth **a** Chadeirydd y Llywodraethwyr, dylai’r aelod o staff roi gwybod i Swyddog Diogelu Dynodedig yr Awdurdod Lleol (Addysg) am y pryder/honiad i drafod y camau nesaf.

**11.5** Os oes tystiolaeth o bryder clir ynghylch ymddygiad aelod o staff mewn perthynas â lles neu ddiogelwch plant rhaid cyfeirio'r mater at y Gwasanaethau i Blant yn fater o frys. Yn hyn o beth bydd atgyfeiriad yn cael ei gwblhau a’i gyflwyno i’r Gwasanaethau i Blant fel sydd wedi'i nodi yn atodiad 3. Bydd angen asesiad risg ar unrhyw weithiwr proffesiynol/person sydd mewn swydd gyfrifol sy'n destun honiad o natur amddiffyn plant yn syth. Bydd yr ysgol/lleoliad yma yn ceisio cyngor gan gydweithwyr ym maes Diogelu Addysg ac Adnoddau Dynol ac yn llenwi’r ffurflen asesu risg.

**11.6** Pan fydd plentyn yn gwneud honiad yn erbyn gweithiwr proffesiynol, mae'n bwysig, lle bo modd, casglu gwybodaeth mewn perthynas â'r canlynol: -

- Beth yw'r honiad.



- Pryd a ble digwyddodd yr achos(ion) honedig
- Unrhyw bartïon eraill sy'n ymwneud â'r honiad
- Unrhyw rai eraill oedd yn bresennol.

**11.7** Dylai staff gyfeirio at Adran 8 y polisi yma. Dylai'r aelod o staff ffonio'r Gwasanaethau Brys os bo pryder bod y plentyn mewn perygl uniongyrchol o niwed. Os ydych yn credu bod trosedd wedi digwydd, ffoniwch yr heddlu ar 101 hefyd.

**11.8** Ein Corff Llywodraethu/pwyllgor rheoli sy'n gyfrifol am ymdrin â materion disgyblu staff. Bydd y Pennaeth/Arweinydd y Lleoliad yn ymdrin â materion o gamymddwyn llai difrifol.

**11.9** Mae'n bwysig bod holl aelodau o staff y sector Addysg yn deall bod ymddygiad anaddas gyda neu tuag at blant yn annerbyniol. Yn benodol, o dan Ddeddf Troseddau Rhyw 2003, mae'n drosedd i berson dros 18 oed gael perthynas rywiol â phlentyn o dan 18 oed pan fo'r person hwnnw mewn sefyllfa gyfrifol (e.e. athro, gweithiwr ieuenctid) hyd yn oed os yw'r berthynas yn un gydsyniol. Mae hyn yn berthnasol pan fo'r plentyn mewn addysg llawn amser a'r oedolyn yn gweithio yn yr un sefydliad â'r plentyn, hyd yn oed os nad yw'n ei addysgu.

J12 Ymateb i Bryderon Diogelu Ynghylch Unigolion sy'n Dod i Gysylltiad â Phlant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed Trwy Eu Gwaith ac Oedolion sy'n Agored i Niwed (Medi 2018) (cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk)

**Swyddog Dynodedig yr Awdurdod Lleol ar gyfer Diogelu (SDD) (cyfeirir ato hefyd fel Swyddog Diogelu Addysg)**

| | | Rhif ffôn | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| CBS Rhon dd a Cynon Taf | Swydd og Diogel u Dynod edi g | 01443 490120 | CarfanAdolyguAmddiffynPlant@rctcbc.go v.uk |
| CBS Merthyr Tudful | Blaen Reolwr, Diogelu<br><br>Swydd og Diogel u Dynode di g ar gyfer | 01443 724686<br>07515192 13 4<br><br>01685 725082 | Safeguarding@merthyr.gov.uk<br><br>education.safeguarding@merthyr.gov.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Addysg | | |
| CBS PYBAO | Swydd og Diogel u Dynode di g ar gyfer Addysg | 01656 815129 | csprofessionalconcerns@bridgend.gov.uk |



| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rheolwr Carfan Ymgys yllt u Addysg | | |

**12. Recriwtio mwy diogel**

**12.1** Yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru (Cadw Dysgwyr yn Ddiogel 3.2.14, Pennod 5: Arferion Recriwtio Mwy Diogel), bydd yr ysgol/lleoliad yma yn dilyn prosesau rheoli Adnoddau Dynol, sy'n cynnwys gwiriad cofnodion troseddol a gwiriad rhestr waharddedig gan y Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd (DBS). Bydd gwiriadau adnewyddu yn cael eu cynnal, lle bo'n addas, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a pholisïau Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol.

**12.2** Bydd yn ofynnol i bob aelod o staff a gwirfoddolwyr feddu ar dystysgrif datgelu DBS gyfredol, lle bo'n berthnasol, yn unol â rheoliadau'r DBS. Nid oes angen cynnal gwiriadau DBS rheolaidd ar gyfer Llywodraethwyr Ysgol oni bai eu bod nhw'n cyflawni dyletswyddau ychwanegol sy'n cynnwys gweithio'n agos â phlant, neu ofalu amdanyn nhw, eu hyfforddi, goruchwylio neu bod yn gyfrifol amdanyn nhw. Am ragor o gyngor ac arweiniad, cysylltwch ag Adnoddau Dynol. Bydd yr ysgol yn cadw cofnod o holl ddyddiadau datgeliadau perthnasol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**12.3** Dylai ymgysylltiad staff asiantaeth/peripatetig o fewn ysgolion fod yn amodol ar yr un gofynion trwyadl sy'n berthnasol ar gyfer aelodau parhaol o staff. Bydd y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn sicrhau bod gan unrhyw berson sy'n cael ei gyflogi i weithio yn yr ysgol gymwysterau, geirdaon a gwiriadau boddhaol. Bydd cofnod ysgrifenedig o'r holl aelodau o staff asiantaeth/peripatetig yn cael ei gadw, gan restru'n glir lle mae datgeliad DBS ar gael, neu asesiad risg yn cael ei lunio yn lle datgeliad DBS.

**12.4** Mae'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn parhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod pawb sy'n mynychu safle'r ysgol yn cael asesiad risg priodol mewn amgylchiadau lle nad yw datgeliadau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael.

**12.5** Os bydd unrhyw aelod o staff yn cyflawni rôl ychwanegol, boed hynny'n rôl gyflogedig neu wirfoddol, sydd ddim yn gysylltiedig yn benodol â'r ysgol ond lle mae posibilrwydd o gysylltiad â disgyblion, hynny yw, trefniadau tiwtora preifat, clybiau

chwaraeon ac ati, bydd yr aelod o staff yn rhoi gwybod i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad am ei rôl a'i gylch gorchwyl. Bydd y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn cadw cofnodion ysgrifenedig clir o'r trefniadau.

**12.6** Dylai pob ysgol ymgyfarwyddo â Phrotocol a Chanllawiau Recriwtio a Dethol eu hawdurdod lleol.



**13. Diogelwch Safle Ysgol**

**13.1** Mae ein hysgol yn lle diogel a phendant i ddisgyblion ddysgu a datblygu sgiliau dysgu a chymdeithasu. Mae diogelwch corfforol disgyblion ar safle'r ysgol yn hollbwysig. Mae mynediad i safle'r ysgol yn cael ei fonitro'n llym, a'i adolygu'n unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol mewn perthynas ag Iechyd a Diogelwch ar safleoedd ysgol. Mae Polisi Iechyd a Diogelwch yr Ysgol ar gael i'w adolygu ar gais gan y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad.

**13.2** Bydd gofyn i holl gontractwyr dyddiol ein safle lofnodi wrth gyrraedd a gadael tir yr ysgol. Bydd ymwelwyr yn nodi'n glir y cwmni maen nhw'n gweithio iddo a'r rheswm dros eu hymweliad. Gan fod contractwr dyddiol yn annhebygol o fod â datgeliad DBS ar gael i'r ysgol ei weld, bydd dull arall o asesu risg yn cael ei ddefnyddio. Bydd yr ysgol yn llunio asesiad risg gan ddefnyddio'r Taflenni Cofnodi Staff/Contractwyr dyddiol sy'n rhestru'n glir y mesurau rheoli sydd ar waith gan yr ysgol i ddiogelu disgyblion.

**13.3** Bydd pob ymwelydd â safle'r ysgol yn cael bathodyn adnabod sy'n rhestru ei statws o fewn yr ysgol, h.y. ymwelydd, contractwr, aelod o'r Corff Llywodraethu/pwyllgor rheoli ac ati, a bydd gofyn iddo ei arddangos yn glir. Dylai ysgolion sicrhau bod pawb sy'n ymweld yn gwybod sut i roi gwybod am bryder diogelu wrth ymweld â safle'r ysgol ac wrth bwy i fynd i drafod y pryderon hynny. Bydd pob disgybl yn cael ei atgoffa'n barhaus bod yn rhaid rhoi gwybod i'r staff am unrhyw berson sydd ar safle'r ysgol heb fathodyn adnabod priodol, a bydd staff yn herio'r unigolyn dan sylw.

**13.4** Mae (ENW'R YSGOL) wedi ymrwymo i sicrhau amgylchedd diogel lle mae modd i blant ddatblygu eu galluoedd heb gael eu heffeithio'n ormodol gan faterion allanol sydd heb eu creu gan yr ysgol ac nad oes modd i'r ysgol ddylanwadu arnyn nhw.

Mae'r materion yma wedi'u categoreiddio fel a ganlyn:

- Materion amgylcheddol e.e. llygredd aer sy'n digwydd yn sydyn (tanau allanol o amgylch adeiladau a safle'r ysgol)
- Ymddygiad anghyfeillgar e.e. rhieni wedi'u cynhyrfu neu unigolion sy'n bwriadu gwneud niwed yn dod i'r ysgol
- Sefyllfaoedd peryglus yn y mannau chwarae allanol e.e. anifail peryglus
- Perygl gan unigolyn mewnol e.e disgybl neu aelod o staff

**13.5** Mae'r ysgol yn cydnabod ei goblygiadau yn unol â'r hyn sydd wedi'i amlinellu yn Adran 26 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 a Chanllawiau Dyletswydd Prevent. Fodd bynnag, mae cyflwyno deddfwriaeth newydd, yn benodol Deddf

Terfysgaeth (Diogelu Anheddau) 2025, y cyfeirir ati'n aml fel Cyfraith Martyn, yn gosod dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol y mae gofyn i'r ysgol gydymffurfio â nhw. Pwrpas y ddeddfwriaeth yma cadw pobl yn ddiogel trwy gyflwyno gofynion diogelwch newydd ar gyfer lleoliadau a mannau cyhoeddus, gan sicrhau bod eu bod



nhw wedi paratoi ac wedi'u diogelu yn erbyn ymosodiad gan derfysgwyr. Mae'r holl ysgolion yn Awdurdodau Lleol RhCT, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Haen Sylfaenol y ddeddfwriaeth yma. Felly, rhaid iddyn nhw sicrhau bod gweithdrefnau perthnasol, asesiadau risg a hyfforddiant staff ar waith i gydymffurfio â'r gyfraith.

**13.6** Lles y plant sydd o'r pwys mwyaf, mae'r ysgol wedi cymryd camau rhagweithiol i weithredu'r mesurau diogelwch cyn cyflwyno Deddf Terfysgaeth (Diogelu Anheddau) 2025 (Cyfraith Martyn). Cafodd y mesurau yma eu cyflwyno cyn i'r Ddeddf ddod i rym a byddan nhw'n parhau i gael eu hadolygu a'u datblygu yn unol â chanllawiau sy'n dod i'r amlwg ac arfer gorau.

**13.7** Mae'r ysgol wedi gwneud hyn trwy:

- Cynnal asesiadau risg mewn perthynas â ffiniau/terfynau'r ysgol a seilwaith adeiladau, gan nodi unrhyw wendidau gweithdrefnol neu gorfforol, a mynd i'r afael â nhw
- Cyflwyno gweithdrefnau a pholisïau brys – megis cyfyngiadau, gwacáu a strategaethau cyfathrebu mewnol – yn y sefyllfa annhebygol lle mae un o'r digwyddiadau uchod yn codi
- Datblygu strategaethau cyfathrebu clir i sicrhau bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael gwybod yn gyflym am ddigwyddiad o'r fath
- Ymgymryd â hyfforddiant 'ACT for Education' a chynnal gwaith blynyddol i brofi gweithdrefnau brys, gan sicrhau eu bod nhw'n effeithiol a bod staff yn derbyn yr hyfforddiant priodol.

Mae'r uchod wedi cael ei gwblhau mewn modd addas gan sicrhau nad ydyn nhw'n peri gofid i'r plant.

**13.8** O ganlyniad, mae (ENW'R YSGOL) yn gweithio'n agos â'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid i ystyried diogelwch safle'r ysgol a chyflwyno gweithdrefnau cyfyngiadau symud, sy'n cael eu profi yn rheolaidd, er mwyn sicrhau diogelwch staff a disgyblion.

## 14. Ymweliadau Addysg y tu hwnt i safle'r ysgol (gan gynnwys ymweliadau cyfnewid i wledydd tramor)

**14.1** Mae'n cael ei gydnabod y bydd achlysuron pan fydd cyfle i ehangu datblygiad addysgol a chymdeithasol lle bydd disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu cynnal oddi ar y lleoliad ysgol arferol. Gall gweithgaredd gynnwys elfen breswyl.

**14.2** Dylai ysgolion sicrhau bod yr holl oedolion sy'n darparu'r gofal a'r llety wedi cael eu gwirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r ymweliadau yma'n wahanol i deithiau ysgol arferol gan fod y disgyblion yn treulio llai o amser dan oruchwyliaeth uniongyrchol athrawon.

**14.3** Pryd bynnag mae taith yn cael ei threfnu, mae'n bwysig bod cyfathrebu agos ynghylch y trefniadau er mwyn galluogi eglurder mewn perthynas â threfniant amser y disgyblion; dylai rhieni fod yn effro i bolisi diogelu'r ysgol.

**14.4** Dylai'r Asesiad Risg priodol gael ei gynnal ar y cyd â Pholisi 'Evolve' y Consortiwm.

**15. Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg**

**15.1** Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn darparu hyfforddiant, cyngor ac arweiniad parhaus ar holl faterion Diogelu Plant. Mae ein hysgol yn croesawu gweithio mewn partneriaeth sy'n hybu iechyd a lles ein disgyblion ac yn ystyried bod gwybodaeth Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg o werth aruthrol i'n hysgol a datblygiad staff.

**15.2** Mae ymchwil ac adolygiadau achos wedi pwysleisio'n gyson yr angen am gyfathrebu rhyngasiantaethol da, her broffesiynol adeiladol a datrysiad cyflym i wahaniaethau barn proffesiynol. Mae ein hysgol yn parhau i fod yn ymrwymedig i chwarae rhan lawn a gweithredol wrth gyfrannu at gynlluniau aml-asiantaeth i blant. Byddwn ni'n herio cydweithwyr yn agored ac yn adeiladol yn unol â'r Canllawiau ar Ymarfer Diogelu Rhyngasiantaethol ar Ddatrys Pryderon i gyflawni'r deilliannau gorau i blant.

Polisi CRISP

**15.3** Mae ein hysgol wedi ymrwymo'n llwyr i amddiffyn a datblygu ein holl ddisgyblion ac yn ystyried gwybodaeth Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn arf hanfodol ar gyfer symud yr agenda yma ymlaen. Mae'r holl staff yn deall bod gwybodaeth lawn am themâu amrywiol ar gael ar wefan Diogelu Cwm Taf Morgannwg.

Hafan | Bwrdd Diogelu Gweithwyr Proffesiynol Cwm Taf Morgannwg (cwmtafmorgannwgsafeguardingboard.co.uk)

**16. Cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg**

**16.1** Mae'r ysgol yma wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cael y budd mwyaf o'i addysg waeth beth fo'u tarddiad ethnig, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, ailbennu rhywedd (materion trawsryweddol), cred grefyddol neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydeinig neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd, cyfrifoldeb am unrhyw ddibynyddion neu unrhyw reswm arall nad oes modd ei gyfiawnhau.

**16.2** Byddwn ni hefyd yn sicrhau, yn unol â deddfwriaeth gyfredol y Gymraeg a Chydraddoldeb, bod dewis iaith pob parti sy'n ymwneud ag unrhyw faterion Diogelu yn cael eu parchu a'u hystyried ar bob cam.

**16.3** Mae achosion o fwlio gwahaniaethol, sy'n croestorri materion Diogelu a Chydraddoldeb, yn cael eu monitro a'u hadrodd yn dymhorol i'r Gyfarwyddiaeth Addysg. Bydd modd i'r Gyfarwyddiaeth Addysg, ynghyd â thîm Cydraddoldeb a'r Gymraeg yr Awdurdod Lleol, gefnogi anghenion hyfforddi a datrys cwynion.



**ATODIAD 1**

**DEDDFWRIAETH A CHYFARWYDDYD (dydy'r rhestr yma ddim yn gyflawn)**

**Deddf Addysg (Cymru) 2014**
Deddf Addysg (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

**Deddf Addysg 2002**
Deddf Addysg 2002 (legislation.gov.uk)

**Deddf Plant 1989**
Deddf Plant 1989 (legislation.gov.uk)

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

**Deddf Plant 2004**
Deddf Plant 2004 (legislation.gov.uk)

**Deddf Hawliau Dynol 1998**
Deddf Hawliau Dynol 1998 (legislation.gov.uk)

**Deddf Diogelu Data 2018**
Deddf Diogelu Data 2018 (legislation.gov.uk)

**Deddf Cydraddoldeb 2010**
Deddf Cydraddoldeb 2010 (legislation.gov.uk)

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)

**Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**
Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 - Nodiadau Esboniadol (legislation.gov.uk)

**Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003**
Deddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003 (legislation.gov.uk)

**Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015**
Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 (legislation.gov.uk)

**Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020** Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 (legislation.gov.uk)

**Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015**



Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (legislation.gov.uk)

**CANLLAWIAU (gweler atodiad 3 am ragor o ganllawiau yn ymwneud â cham-drin a cham-fanteisio)**

**Gweithdrefnau Diogelu Cymru**
Diogelu Cymru

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**

Diogelu Cymru

**Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: COD YMARFER DIOGELU**
Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu | LLYW.CYMRU

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn - UNICEF UK

**Cadw Dysgwyr yn Ddiogel**
Cadw Dysgwyr yn Ddiogel | LLYW.CYMRU

**Dod â chosbi corfforol i ben yng Nghymru**
Stopio cosbi corfforol i ben yng Nghymru | LLYW.CYMRU

**Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru)**
Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) | LLYW.CYMRU

**Canllawiau a Gwasanaethau - Bwlio yn yr Ysgol**
Bwlio yn yr Ysgol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

**Ymyriadau diogel ac effeithiol – defnyddio grym a chwilio am arfau**
Ymyriadau diogel ac effeithiol: canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**
Addysg Ddewisol yn y Cartref | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

**Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd**
WG31248 (llyw.cymru)

**Gwneud Gwahaniaeth: Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal mewn ysgolion**
Canllaw i'r person dynodedig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal | LLYW.CYMRU

**Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol**
Gweithdrefnau disgyblu a diswyddo staff ysgol | LLYW.CYMRU

**Diogelu ac Amddiffyn Plant a Phobl Ifainc: Canllaw ac enghraifft o arfer da ar gyfer sefydliadau dyfarnu**
Diogelu ac Amddiffyn Plant a Phobl Ifainc (ioe.ac.uk)



**Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion: canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol**
Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion: canllawiau i ysgolion ac awdurdodau lleol | LLYW.CYMRU

**Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion**
Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion | LLYW.CYMRU

**Ysgolion Bro: Canllawiau**
Ysgolion Bro | LLYW.CYMRU

**Bod yn athro**
[Bod yn athro | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]



**ATODIAD 2**

**SAFONAU MOESEGOL AC YSTYRIAETHAU DIOGELWCH AR GYFER POBL BROFFESIYNOL YM MAES ADDYSG**

**Dylai pob aelod o staff gyfeirio at Godau Ymddygiad eu hawdurdod lleol.**

*Yn ogystal â Chod Ymddygiad y Sir, mae gan Gyngor y Gweithlu Addysg ei ganllawiau ei hun o ran*
*safonau proffesiynol. Mae'r canllawiau yma ar gael ar wefan Cyngor y Gweithlu Addysg: -*

[Cod ymddygiad ac ymarfer proffesiynol (ewc.wales)]

Dylai aelodau staff y sector addysg fod yn hynod ystyriol o'r canfyddiadau o'u gweithredoedd yn enwedig wrth ymdrin â phlant (person o dan 18 oed). Mae cryn

cyhoeddusrwydd wedi bod ynghylch y defnydd o offer amlgyfrwng mewn lleoliadau addysgol. Mae pryderon sylweddol am faterion amddiffyn plant wedi hannu o weithredoedd a fyddai wedi bod yn arferol mewn ysgolion gynt, e.e. tynnu lluniau o gyngherddau neu weithgareddau addysg gorffol ac ati. Yn ogystal â hyn, mae bywydau personol pobl sy'n gweithio gyda phlant bellach yn cael eu harchwilio'n gynyddol.

Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a'r Gwasanaethau i Blant wedi cytuno ar ganllawiau i sicrhau bod goruchwyliaeth wrthrychol gadarn ar waith os bydd honiadau yn erbyn gweithiwr proffesiynol/person sydd mewn rôl gyfrifol. Rhaid rhoi gwybod am honiadau o natur diogelu yn erbyn aelodau o staff, gwirfoddolwyr neu bersonau mewn rolau cyfrifol i'w hystyried y tu allan i'r ysgol. Mae modd naill ai anfon adroddiadau yn uniongyrchol i'r Gwasanaethau i Blant lle mae pryder amlwg am les neu ddiogelwch plant, neu gynnal trafodaethau gyda'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (Addysg). Hyd yn oed pan fydd rhywun yn gwneud honiadau yn erbyn aelod o staff, gwirfoddolwr neu berson mewn rôl gyfrifol a dydy'r honiad hynny ddim yn bryder diogelu, mae modd gofyn am gyngor gan y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (Addysg) i gytuno ar ffordd ymlaen.

Dyma'r cyngor sy'n cael ei roi i'r holl aelodau o staff yn rhanbarth Cwm Taf Morgannwg:

1. **Peidiwch â rhannu eich manylion cyswllt personol gyda disgyblion**. Gall hyn roi'r argraff i'r disgybl eich bod chi'n ffrindiau a chymylu'r ffiniau proffesiynol sydd eu hangen rhwng disgyblion a staff. Peidiwch â dod yn ffrindiau â disgyblion neu gyn-ddisgyblion ar wefannau cyfryngau cymdeithasol gan y byddai hyn yn rhoi mynediad iddyn nhw at wybodaeth bersonol. Os oes angen ffôn symudol ar gyfer tripiau ysgol ac ati, dylai'r ysgol ddarparu un. Os oes angen i chi gysylltu â phlant trwy e-bost ar gyfer gwaith cwrs ac ati y tu hwnt i oriau ysgol, dylech chi ddefnyddio system TG sy'n cael ei gwirio a'i monitro gan yr ysgol. Mae rhoi eich manylion personol i ddisgyblion yn rhoi aelodau o staff mewn perygl o gael eu cyhuddo a



chael eu rhoi mewn sefyllfaoedd cymhleth. Bydd ffiniau proffesiynol clir yn diogelu disgyblion a staff.

2. **Peidiwch â dod ag eitemau electronig i dir yr ysgol os ydyn nhw'n cynnwys unrhyw wybodaeth neu ddelweddau anaddas.** Mae nifer o achosion wedi codi ar ôl i aelodau o staff fethu â diffodd eu Bluetooth tra yn yr ysgol. Mae disgyblion wedyn wedi cysylltu â ffonau staff ac wedi anfon deunydd anaddas neu gael mynediad at wybodaeth bersonol yr aelod o staff. Cofiwch fod gan lawer o liniaduron gyfleuster Bluetooth ac felly mae posibilrwydd i ddisgyblion 'chwilio' am liniaduron a threiddio i'w cynnwys - Mae gan yr awdurdod ganllawiau clir ynglŷn â defnyddio Bluetooth ar ei offer/addasu i hwyluso technoleg o'r fath. Yn y gorffennol mae aelodau o staff wedi colli ffonau symudol/camerâu/tabledi, neu maen nhw wedi cael eu dwyn. Mae disgyblion wedyn wedi cyrchu cynnwys y ddyfais; mae'r aelod o staff yn parhau i fod yn gyfrifol am gynnwys y ddyfais. Pe bai'n cynnwys unrhyw ffotograffau anaddas ac iaith neu jôcs amhriodol, gallai hyn ddod yn fater disgyblu.

3. **Peidiwch â chysylltu â disgyblion ar eu ffonau symudol personol.** Os oes angen i chi gysylltu â disgybl y tu hwnt i oriau ysgol dylech chi gysylltu â rhiant/gwarcheidwaid yn gyntaf i gael caniatâd. Mewn sefyllfa o argyfwng lle mae

pryder am les uniongyrchol y disgybl, gwnewch alwadau ffôn i ddisgyblion ar eu ffonau symudol personol gyda thyst yn bresennol a nodwch y rhesymeg dros wneud yr alwad yn glir.

4. **Peidiwch â thynnu lluniau o blentyn heb ganiatâd penodol gan ei riant/gwarcheidwaid.**
Mae technoleg amlgyfrwng yn datblygu'n gyflym; mae fideo a ffotograffiaeth yn rhan annatod o addysg fodern. Dylech chi wneud nodyn o ddiben y lluniau, y defnydd/dosbarthiad arfaethedig a sut fyddwch chi'n eu cadw. Rhannwch yr wybodaeth honno gyda chyfranogwyr a rhieni/gwarcheidwaid cyn tynnu'r lluniau. Gallai storio delweddau amlgyfrwng o ddisgyblion heb gynlluniau a chaniatâd wedi'u dogfennu achosi anhawster sylweddol i chi a'r ysgol pe bai cwyn. Bydd hyn yn cynnwys deunydd sy'n cael ei gynhyrchu at ddibenion addysgu a/neu arholi.

5. **Peidiwch â chael eich perswadio i weld/atgynhyrchu delweddau electronig.**
Os fyddwch chi'n darganfod delweddau o natur anaddas/rywiol neu os cewch chi eich rhybuddio am fodolaeth delweddau o'r math yma, peidiwch ag edrych arnyn nhw, eu copïo na'u hargraffu o dan unrhyw amgylchiadau. Efallai y byddwch chi'n cyflawni trosedd drwy wneud hyn. Dylid diogelu'r ddyfais yma, a cheisio cyngor naill ai gan y Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (Addysg) neu'r Garfan Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Hwb Diogelu Amlasiantaeth. Os ydych chi'n teimlo y gallai'r ddelwedd fod yn drosedd, rhowch wybod i Heddlu De Cymru drwy ffonio 101. Yn ogystal, mae polisi TG yr awdurdod lleol yn amlinellu'r ymddygiad sydd i'w ddisgwyl gan bob aelod o staff mewn perthynas â defnyddio TG a diogelwch TG. Mae modd gweld y polisi yma ar fewnrwyd eich awdurdod lleol.

6. **Byddwch yn effro i'ch ymddygiad ar y rhyngrwyd gan gynnwys gwefannau cyfryngau cymdeithasol.** Mae gan bob gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol hawl i fywyd teuluol preifat. Fodd bynnag, trwy roi manylion eich bywyd ar y



rhyngrwyd, rydych yn eu gwneud yn gyhoeddus. Mae gosodiadau diogelwch ar wefannau cyfryngau cymdeithasol yn hynod annibynadwy, a phe baen nhw'n methu, fydd dim modd cael unrhyw wybodaeth yn ôl o'r parth cyhoeddus. Dylech chi ddim dderbyn ceisiadau gan ddisgyblion neu gyn-ddisgyblion sydd â chysylltiadau â'ch ysgol bresennol neu hen ysgol, i fod yn ffrindiau ar dudalen gymdeithasol, bydd ganddyn nhw fynediad at eich manylion cyswllt personol a'ch cylch cymdeithasol. Gall hyn effeithio ar eu canfyddiad o'r ffin sy'n bodoli rhwng disgyblion c aelodau o staff Yn ogystal, efallai na fydd eich ymddygiad mewn lleoliad cymdeithasol yn eich portreadu yn y ffordd y byddai'r ysgol yn dymuno i'w aelodau o staff gael eu gweld gan ddisgyblion. Mae'n bwysig eich bod yn gwirio Polisi Cyfryngau Cymdeithasol eich awdurdod lleol i sicrhau eich bod yn cydymffurfio, ond mae'n ddoeth i weithwyr naill ai beidio â datgan eu bod yn gweithio i'r ysgol neu fod yn amhenodol, gan y gallai'r cyhoedd gymryd yn ganiataol bod eich barn yn gynrychioliadol o yr ysgol/lleoliad neu'r Awdurdod Lleol. Dylai aelodau'r cyhoedd allu disgwyl lefel o atebolrwydd yn eich ymddygiad ar-lein. Os byddwch chi'n diystyru'r pwyntiau rhybuddiol yn y canllaw yma, rhaid i chi ddeall bod eich ymddygiad ar-lein hefyd yn agored i brosesau craffu yn unol â'r gweithdrefnau disgyblu.

7. **Peidiwch ag atal disgyblion am faterion rheoli ymddygiad, oni bai eich bod wedi derbyn hyfforddiant i wneud hynny.** Bydd awdurdod lleol RhCT/Merthyr Tudful/Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio model achrededig o ymyriad corfforol fel sydd wedi'i nodi yn y trefniadau lleol. Er mwyn cyflawni eich 'Dyletswydd Gofal'

gallwch gyflawni ymyriad rhesymol, mewn sefyllfa o fywyd neu goes. (er enghraifft, os yw disgybl yn achosi neu'n debygol o achosi anaf personol difrifol i'w hun neu i eraill). Fodd bynnag, dim ond y rhai sydd wedi'u hyfforddi i wneud hynny ddylai ymgymryd ag ymyriad mewn ymateb i faterion rheoli ymddygiad. Mae ymyriadau corfforol gan aelodau o staff sydd heb gymryd rhan yn yr hyfforddiant priodol yn cynyddu'r risg o anaf corfforol ac effaith negyddol ar berthynas disgyblion ac aelodau o staff. Mae gan ddisgyblion yr hawl i gwyno os ydyn nhw'n teimlo bod ymyriad yn anaddas. Pe bydd hyn yn digwydd ac eich bod chi heb gymryd rhan mewn hyfforddiant addas, byddwch chi'n gadael eich hun a'r ysgol yn agored iawn i feirniadaeth a gwaradwydd.

8. **Rhaid cynnal cyswllt priodol ar bob adeg.** Weithiau gall disgyblion ymddangos yn gynhyrfus neu'n ofidus iawn ac yn aml yr ymateb greddfol yw cysuro'n gorfforol er mwyn lleddfu'r teimladau hynny. Dylai aelodau o staff fod yn effro i'r parthau addas ar gyfer cyswllt corfforol â phlant. Dylai aelodau o staff ddim wneud unrhyw gyswllt corfforol heblaw am roi braich o amgylch ysgwydd disgybl. Tra bod rhoi cusan ar foch neu ar ben yn aml yn ymateb greddfol a charedig, dydy hyn DDIM yn addas mewn ysgol/lleoliad addysg. Fyddwch chi ddim yn effro i farn y plentyn penodol hwnnw am gyswllt corfforol (neu unrhyw gamdriniaeth posibl) a gallech achosi trallod ychwanegol trwy gyffwrdd ag ef. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd plentyn yn camddeall eich bwriad a gall deimlo'n anghyfforddus iawn neu fel petai dan fygythiad yn sgil eich ymgais i'w gysuro. Ddylai aelodau o staff fyth ysgogi cyswllt corfforol a pe bydd plentyn mewn trallod yn ceisio cyswllt corfforol, dylai'r aelod o staff gadw nodyn o hynny.



9. **Peidiwch â rhoi arian nac anrhegion i ddisgyblion oni bai bod yr ysgol yn cytuno ar yr eitemau hyn, ac yn eu darparu a chadw cofnod ohonyn nhw.** Ar adegau bydd disgyblion yn anghofio arian cinio. Dylai'r brif swyddfa ymdrin â'r achosion yma a chadw cofnod ohonyn nhw. Pe bydd aelodau o staff yn cynllunio rhoi gwobr/rhodd i ddisgybl er mwyn cydnabod cyrhaeddiad, rhaid i Uwch Garfan Rheoli yr ysgol/lleoliad gytuno ar hynny a chadw cofnod clir ohono yn ymateb addas i gyrhaeddiad y disgybl. Dylai unrhyw rodd neu wobr fod yr un mor hygyrch i bob disgybl ar sail teilyngdod ac angen.

10. **Pan fydd disgyblion yn gadael eich ysgol chi byddwch chi'n parhau mewn sefyllfa o awdurdod ac mewn rôl gyfrifol. Rhaid i chi gynnal yr un ymddygiad â phe taech chi'n dal i fod yn yr ysgol/lleoliad pan roedden nhw'n ddisgyblion.** Bydd rhai aelodau o staff yn dod ar draws plant mewn achlysuron cymdeithasol, chwaraeon neu gymunedol. Dylai eich ymddygiad barhau ar y safon ddisgwyliedig yr ysgol, gan y bydd y plant yma'n parhau i'ch ystyried chi'n gynrychiolydd o'r ysgol a'i gwerthoedd. Rhaid i chi hefyd ystyried y posibilrwydd bod gan y plant frodyr a chwiorydd, aelodau teulu neu gymdogion sy'n dal i fod yn ddisgyblion yn yr ysgol. Maen nhw'n debygol o rannu eich ymddygiad chi a'i drafod gyda'r disgyblion presennol. Rhaid i chi hefyd fod yn effro i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003. Mae'r ddeddf yn nodi ei bod yn anghyfreithlon i berson mewn swydd gyfrifol ymddwyn mewn modd rhywiol gyda disgyblion nes eu bod yn 18 oed. Mae swyddi cyfrifol yn cynnwys unrhyw oedolyn sydd â chyfrifoldeb dros ddisgyblion, nid dim ond staff addysgu.

11. **Pe bydd unrhyw amgylchiadau a allai effeithio ar ganfyddiad eraill ohonoch**

**chi yn weithiwr proffesiynol/unigolyn mewn rôl gyfrifol ar gyfer cymuned yr ysgol, rhaid i chi roi gwybod i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad ar unwaith.** Gall hyn gynnwys materion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, ymyrraeth Gwasanaethau i Blant o fewn eich teulu, materion sy'n ymwneud ag alcohol neu gyffuriau, amhriodoldeb ariannol neu ymddygiad ymosodol yn eich cymuned. Er mwyn diogelu disgyblion ac aelodau o staff, byddai angen llunio asesiad risg. Caiff amgylchiadau pob unigolyn eu hystyried yn eu cyd-destun, ond rhaid cael trafodaeth agored a gonest gyda'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad er mwyn sicrhau bod unrhyw risgiau canfyddedig yn cael eu lleihau a bod mesurau rheoli priodol ar waith.

12. **Os bydd unrhyw weithiwr proffesiynol yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu, rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth/Arweinydd y Lleoliad ar unwaith.** Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad ni waeth pa fath o drosedd. Mae hyn er mwyn i'r ysgol/lleoliad allu cyflawni asesiad risg ar unwaith**.**

13. **Os byddwch chi'n dod yn effro i unrhyw aelod o'ch cartref neu deulu agos wedi cyflawni trosedd, neu'n cael ei ymchwilio am gyflawni trosedd yn erbyn plentyn, oedolyn agored i niwed neu drosedd dreisgar, dylech chi roi gwybod i'ch Pennaeth/Arweinydd Lleoliad.** Hyd yn oes os nad ydych chi'n rhan o'r ymchwiliad , rhaid rhoi gwybod i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad oherwydd eich statws yn berson cyfrifol a chynrychiolydd o'r ysgol. Mae disgwyl i chi, a chithau'n weithiwr proffesiynol cyfrifol, rannu gwybodaeth o'r fath. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl bod disgyblion yn effro i'r cysylltiad rhyngoch chi â'r person sy'n destun



ymchwiliad. Mae perygl bob amser y byddai disgyblion yn gweld y person dan sylw fel oedolyn diogel oherwydd eu cysylltiadau hysbys â chi fel aelod o staff. Byddai'n rhaid gwneud asesiad risg er mwyn diogelu disgyblion a chi'ch hun. Pe bydd pobl o'r farn eich bod chi'n cefnogi person sy'n destun ymchwiliad am droseddau yn erbyn plant, neu sydd wedi cael ei gyhuddo o droseddau yn erbyn plant, mae hawl gan unigolion i gwestiynu eich gallu i ddiogelu plant. Efallai bydd asesiad risg yn hanfodol i sicrhau eich bod chi'n meddu ar yr ymwybyddiaeth angenrheidiol er mwyn ymgymryd â'ch cyfrifoldebau yn unol â'r agenda diogelu.

14. **Mae diogelu plant yn bryder i'r ysgol gyfan. Dylai pob aelod o staff fod yn effro i arwyddion o gam-drin a deall wrth bwy i roi gwybod am unrhyw bryderon neu amheuon.** A chithau'n weithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol yn gweithio gyda phlant, mae gennych chi ddyletswydd glir i roi gwybod am unrhyw bryderon sydd gennych chi am blentyn. Gall methu â gwneud hynny arwain at ragor o ofid a dioddefaint i'r plentyn ond gall hefyd arwain at ddisgyblu'r aelod o staff dan sylw. Pe bydd plentyn yn rhoi gwybod am bryder ynghylch gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol, rhaid i chi aros yn wrthrychol, gwrando ac yna adrodd y ffeithiau ar unwaith i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad (argymhelliad CLYWCH). Nid eich rôl chi yw barnu'r plentyn, y gweithiwr proffesiynol/person mewn swydd gyfrifol neu ansawdd a dilysrwydd yr wybodaeth. Mae arnoch chi ddyletswydd i adrodd gwybodaeth o'r fath mewn ffordd ffeithiol ac amserol. Mae cefnogaeth ar gael i aelodau o staff sy'n teimlo'n drallodus ar ôl achos neu ddatgeliad amddiffyn plant.

Pe bydd angen i aelodau o staff rannu pryderon am y Pennaeth/Arweinydd Lleoliad, dylid cyflwyno'r adroddiadau yma i Gadeirydd y Corff Llywodraethu/Pwyllgor os yw'r pryderon yn ymwneud â'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad.

Cyfrifoldeb yr unigolyn yw gwerthuso Polisi Diogelu'r ysgol ac ymgyfarwyddo'u hun â'r Uwch Swyddog Dynodedig ar gyfer trefniadau diogelu plant. Dylai fod gan yr ysgol gyfrifoldeb i sicrhau bod Amddiffyn Plant yn rhan gynhenid o unrhyw gyfnod ymsefydlu, a bod pob aelod o staff yn effro i unrhyw ddiweddariadau. Dylai unigolion hefyd roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch unrhyw weithiwr proffesiynol arall sydd ddim yn cydymffurfio â'r safonau yma, naill ai i'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad neu drwy bolisi Chwythu'r Chwiban yr Ysgol neu'r Awdurdod Lleol. Bwriad y cyngor sydd wedi'i nodi yw gwella mesurau diogelu plant ac amddiffyn aelodau o staff.

Bydd disgwyliad clir o safonau ymddygiad yn rhoi arweiniad i staff ac yn helpu i sicrhau bod cyn lleied o sefyllfaoedd o risg ag sy'n bosibl yn digwydd. Â chithau'n weithiwr proffesiynol/person sydd mewn swydd gyfrifol byddwch chi'n deall nad yw'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd yn cyd-fynd yn union â'r canllaw a bod yn rhaid i farn broffesiynol ddod i rym. Os oes angen anochel i gymryd camau sydd heb eu hargymell yn rhan o'r daflen gyngor yma, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cadw cofnod o'ch gweithredoedd ac yn nodi'r sail resymegol dros wneud y penderfyniad hwnnw. Dylech chi rannu'r wybodaeth honno gyda'r Uwch Swyddog Dynodedig neu'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad cyn gynted â phosibl. Mewn unrhyw achos lle mae'r Pennaeth/Arweinydd Lleoliad yn canfod ei hun yn yr amgylchiadau sydd wedi'u nodi uchod, dylen nhw roi gwybod i Gadeirydd y Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli am



ei bryderon a cheisio cyngor gan Adnoddau Dynol a'r Swyddog Dynodedig ar gyfer Diogelu (Addysg).

**DYLETSWYDD** yw amddiffyn plant, nid opsiwn.

## ATODIAD 3

**Mathau o Gam-drin a Chamfanteisio**

**Mae hefyd modd cael mynediad at adnoddau o Wefan Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg:**

Bwrdd Diogelu | Bwrdd Diogelu, Cwm Taf Morgannwg (cwmtaforgannwgsafeguardingboard.co.uk)

**Cam-drin corfforol**
Gall cam-drin corfforol gynnwys taro, ysgwyd, taflu, gwenwyno, llosgi neu sgaldio, boddi, tagu, neu achosi math arall o niwed corfforol i blentyn. Yn ogystal â hynny, mae modd i riant/gwarcheidwaid beri niwed corfforol wrth esgus bod y plentyn o dan eu gofal yn sâl, neu wneud y plentyn hwnnw yn sâl yn fwriadol. Un disgrifiad o'r sefyllfa yma yw salwch ffug, neu salwch wedi'i wneud gan y cynhaliwr neu ofalwr.

Dydy cosbi plant yn gorfforol ddim yn amddiffyniad rhesymol bellach ac mae Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad o Gosb Resymol) (Cymru) 2020 yn diddymu'r amddiffyniad i'r troseddau presennol o ymosod a churo plentyn.

Canllaw Ymarfer:

Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)

**Cam-drin Emosiynol**

Cam-drin emosiynol yw cam-drin plentyn yn emosiynol dros amser i'r graddau lle mae hyn yn achosi effeithiau niweidiol difrifol a chyson i ddatblygiad emosiynol y plentyn. Gallai olygu cyfleu'r syniad i'r plentyn ei fod yn ddiwerth neu fod neb yn ei garu, ei fod yn annigonol neu ddim ond â gwerth i'r graddau ei fod yn bodloni anghenion person arall. Gall gynnwys gosod disgwyliadau ar blentyn sy'n anaddas i'w oed neu ddatblygiad. Gall gynnwys peri i blentyn deimlo'n ofnus neu mewn perygl yn aml, neu gam-fanteisio arno neu'i lygru. Mae elfen o gam-drin emosiynol yn perthyn i bob math o gamdriniaeth, er y gall fodoli ar ei ben ei hun.

**Cam-drin Rhywiol**

Mae cam-drin rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn effro i'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithredoedd olygu cyffwrdd corfforol, gan gynnwys gweithredoedd sy'n treiddio i gorff y plentyn neu beidio. Gallan nhw fod yn weithredoedd sydd ddim yn cynnwys cyffwrdd, fel cynnwys plant yn y broses o edrych ar ddeunyddiau pornograffig neu'u cynhyrchu, o wylio gweithredoedd rhywiol neu o annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.



Stop it Now
Cyngor i weithwyr proffesiynol - Gweithio ym maes amddiffyn plant - Stop It Now

**Esgeulustod**

Esgeulustod yw'r methiant cyson i fodloni anghenion corfforol a/neu seicolegol sylfaenol plentyn sy'n debygol o arwain at nam difrifol i iechyd neu ddatblygiad y plentyn. Gall olygu methiant rhiant neu gynhaliwr i ddarparu digon o fwyd, cysgod neu ddillad, methiant i amddiffyn plentyn rhag niwed corfforol neu berygl, neu fethiant i sicrhau mynediad i ofal neu driniaeth feddygol addas. Gall hefyd gynnwys esgeuluso anghenion emosiynol sylfaenol plentyn, neu fethu ag ymateb iddo.

Canllaw Ymarfer:
[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)]

**Cam-drin Ariannol**

Mae cam-drin ariannol neu faterol yn cynnwys dwyn, twyllo, cam-fanteisio, rhoi rhywun o dan bwysau o ran ewyllys, eiddo neu etifeddiaeth a thaliadau ariannol. Yn ogystal â hynny, mae'n cynnwys camddefnyddio eiddo neu fudd-daliadau unigolyn, neu eu hawlio heb ganiatâd. Fel arfer, mae'r math yma o gam-drin dim ond yn berthnasol ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Serch hynny, mae modd iddo fod yn berthnasol i blant os bydd rhieni'n defnyddio etifeddiaeth neu iawndal eu plentyn mewn modd sydd ddim yn cyfrannu at ei les.

**Adnabod niwed arwyddocaol neu sylweddol**

Cyflwynodd Deddf Plant 1989 y **cysyniad o niwed arwyddocaol** fel y trothwy sy'n cyfiawnhau ymyrryd yn orfodol ym mywyd teulu er mwyn amddiffyn plant. Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio niwed arwyddocaol fel trin plentyn yn wael neu niweidio ar ei iechyd a'i ddatblygiad yn ddifrifol. Mae'n disgrifio effeithiau cam-drin neu esgeulustod rhywiol, corfforol ac emosiynol, neu gyfuniad o'r gwahanol fathau o gam-drin neu esgeuluso. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol dan adran 47(1)(b) o *Deddf Plant 1989* i wneud ymholiadau neu i sbarduno ymholiadau, os oes achos rhesymol i amau bod plentyn sy'n byw neu wedi cael ei ddarganfod yn eu hardal yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed arwyddocaol.

Does dim meini prawf diamod mae modd dibynnu arnyn nhw wrth benderfynu beth yw niwed sylweddol. Gall achos difrifol unigol, megis cam-drin rhywiol neu ymosod treisgar, beri niwed sylweddol i blentyn. Serch hynny, fel arfer, mae niwed sylweddol yn cael ei achosi gan gasgliad o ddigwyddiadau dros gyfnod hir sy'n ymyrryd yn natblygiad corfforol a seicolegol plentyn, neu'n newid/difrodi'r datblygiad hwnnw. Mae niwed arwyddocaol sy'n deillio o effaith gyrydol cam-drin hirdymor yn debygol o gael effaith ddwys ar ddeilliannau'r plentyn yn y dyfodol.



Ar adeg gwneud yr atgyfeiriad, efallai nad yw'n glir a yw plentyn mewn angen neu'n dioddef niwed sylweddol. Dylai'r asesiad cychwynnol sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn cael digon o wybodaeth i benderfynu ar natur yr angen a/neu'r niwed a pha gamau sydd angen eu cymryd. Mae hyn yn gofyn am rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, asesu a dadansoddi strwythuredig, gan gynnwys ystyried barn y plentyn ei hun am ei amgylchiadau yn ôl ei oedran a'i ddealltwriaeth. **Mae asesiad da yn sail hanfodol ar gyfer penderfynu beth yw'r pryderon i'r plentyn, beth sydd angen newid, a pha wasanaethau ac ymyriadau sydd eu hangen i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol.**

Er mwyn deall a sefydlu niwed sylweddol, mae angen ystyried: -

- Cyd-destun y teulu
- Datblygiad y plentyn o fewn cyd-destun ei deulu a'r amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol ehangach
- Unrhyw anghenion arbennig, megis cyflwr meddygol, anhawster cyfathrebu neu anabledd a allai effeithio ar ddatblygiad a gofal y plentyn o fewn y teulu ●

Natur y niwed, o ran cam-drin neu fethiant i ddarparu gofal digonol ● Yr effaith ar iechyd a datblygiad y plentyn a
● Digonolrwydd gofal rhieni

**Mathau eraill o gam-drin**

**Ymosodiadau Ar-lein**

Ymosodiad ar-lein yw unrhyw gamdriniaeth sy'n digwydd ar-lein, naill ai ar gyfryngau cymdeithasol, gemau ar-lein neu ar ffonau symudol. Mae'n bosibl bod plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael eu bwlio ar-lein, eu cam-drin yn rhywiol, eu hecsbloetio'n rhywiol neu'u cam-drin yn emosiynol, neu mae'n bosibl bod unigolion yn meithrin perthynas amhriodol â nhw. Mae modd i blant ac oedolion sy'n agored i niwed wynebu risg o gael eu hymosod ar-lein gan bobl maen nhw'n eu hadnabod, yn ogystal â phobl ddieithr. Gall cam-drin ar-lein fod yn rhan o gam-drin sy'n digwydd yn y byd go iawn (er enghraifft bwlio neu grwmio) neu efallai mai dim ond ar-lein y mae'r cam-drin yn digwydd (er enghraifft perswadio plant i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol ar-lein). Mae'n bosibl bod plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn teimlo nad oes modd dianc o gam-drin ar-lein – mae modd i'r rheiny sy'n eu cam-drin gysylltu â nhw bob awr o'r dydd, hyd yn oed pan maen nhw mewn man diogel fel ystafell wely. Yn ogystal â hynny, mae modd i luniau a fideos gael eu storio a'u rhannu gyda phobl eraill.

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**
Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)

**Addysg gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol: CEOP Education (ymwybyddiaeth o gam-drin a cham-fanteisio ar blant ar-lein)** Gweithwyr Proffesiynol | Addysg CEOP (thinkuknow.co.uk)



**Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell**
Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell - Hwb (llyw.cymru)

**Cadw'n Ddiogel Ar-lein – Mae amrywiaeth o ganllawiau ar gael yn: -**
Adnoddau - Hwb (llyw.cymru)

**NSPCC Cadw Plant yn Ddiogel Ar-lein**
Cadw plant yn ddiogel ar-lein | NSPCC

**Cam-drin Domestig**

Diffiniad cam-drin domestig yn Strategaeth Cymru Gyfan ar Gam-drin Domestig yw: 'Defnyddio cam-drin neu drais corfforol a/neu emosiynol, gan gynnwys tanseilio hunanhyder, trais rhywiol neu fygythiad o drais, gan berson sydd neu sydd wedi bod mewn perthynas agos â'r dioddefwr.

Gall cam-drin domestig fynd y tu hwnt i drais corfforol. Gall hefyd gynnwys cam-drin emosiynol, dinistrio eiddo priod neu bartner, ynysu oddi wrth ffrindiau, teulu neu ffynonellau o gymorth posibl eraill, bygythiadau i eraill gan gynnwys plant, rheolaeth dros fynediad at arian, eitemau personol, bwyd, cludiant, ffôn a stelcian.

Gall hefyd gynnwys trais sy'n cael ei gyflawni gan fab, merch neu unrhyw berson arall sydd â pherthynas agos neu waed â’r dioddefwr/goroeswr. Gall hefyd gynnwys trais ar blant, neu drais mae plant yn dyst iddo. Rhaid cydnabod effeithiau andwyol eang byw gyda cham-drin domestig ar blant yn fater amddiffyn plant. Gall yr effeithiau fod yn gysylltiedig â chyflawniad addysgol gwael, eithrio cymdeithasol a throseddau ieuenctid, camddefnyddio sylweddau, problemau iechyd meddwl a digartrefedd o ganlyniad i redeg i ffwrdd. Nid digwyddiad “untro” yw cam-drin domestig; mae'n aml ac yn barhaus'.

Mae'r trothwyon ar gyfer ymyrryd mewn achosion o gam-drin domestig yn parhau i fod yn her i bob asiantaeth ac mae'n bwysig bod y trothwy'n cael ei fonitro'n barhaus mewn fforymau perthnasol.

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**
[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)]

**Rhoi cymorth a chyngor o ran trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol**
[Llinell gymorth Byw Heb Ofn | LLYW.CYMRU]

**Dull addysg gyfan mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWSASV) yng Nghymru - Canllaw Arfer Da (wedi'i lunio gan Lywodraeth Cymru)**
[Canllaw arfer da - dogfen Gymraeg (llyw.cymru)]

**Radicaliaeth**



Mae canllawiau gan Strategaeth Gwrth-frawychiaeth *Prevent* yn nodi cyfrifoldebau 'awdurdodau penodol', sy'n cynnwys ysgolion '[to have] due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism’. Ystyr 'due regard' yn y cyd-destun hwn yw rhoi cynsail i'r ddyletswydd newydd, gan ystyried cyd-destun yr ysgol a'r gymuned. Wrth gyflawni'r ddyletswydd newydd, mae gofyn i ysgolion ddangos y protocolau clir ar gyfer sicrhau bod unrhyw siaradwyr gwadd, y mae staff neu'r disgyblion yn eu gwahodd, yn briodol a'u bod yn cael eu goruchwylio'n briodol.

Bydd polisi e-ddiogelwch yr ysgol yn sicrhau nad oes modd i blant gyrchu gwybodaeth anaddas ar safle'r ysgol.

Bydd ysgolion yn gwrthwynebu eithafiaeth ac yn hyrwyddo cydlyniad cymunedol drwy ddysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, diwylliannol, corfforol a meddyliol disgyblion, a'u paratoi tuag at gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau.

Caiff siaradwyr gwadd eu hasesu, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol, ac fe gân nhw eu goruchwylio'n briodol.

Bydd ysgolion yn sicrhau bod eu gweithdrefnau diogelu yn briodol ac yn gymesur. Rhaid sicrhau cydbwysedd. Mae'n bwysig caniatáu i ddisgyblion gael y rhyddid i fod yn wahanol, arbrofi, meithrin safbwyntiau cryf a herio syniadau mewn ffordd iach. Mae hefyd yn bwysig diogelu disgyblion rhag pob math o gamdrin ac esgeulustod,

gan gynnwys ecsploetiaeth, bwlio, meithrin perthynas amhriodol, radicaliaeth, eithafiaeth dreisgar, aflonyddwch, trosedd gasineb a thrais.

Dylai ysgolion sefydlu mannau diogelu lle bo modd i blant a phobl ifainc ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys brawychiaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg brawychwyr, a dysgu sut i herio'r syniadau yma. Nid bwriad dyletswydd Prevent yw cyfyngu trafodaeth ar y materion yma. Dylai ysgolion, fodd bynnag, fod yn effro i'w dyletswyddau presennol i wahardd egwyddorion gwleidyddol a sicrhau cydbwysed o ran materion gwleidyddol.

Strategaeth ar gyfer Gwrthderfysgaeth (CONTEST) - GOV.UK

Prevent | Plismona Gwrth-derfysgaeth Ffurflen Atgyfeirio Partneriaid Prevent Cymru Gyfan - Cymraeg (de-cymru.police.uk)

**Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant**

Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn fath o gam-drin rhywiol a all gynnwys rhyw neu unrhyw fath o weithgarwch rhywiol gyda phlentyn; creu delweddau anweddus a/neu unrhyw ddeunydd anweddus arall sy'n cynnwys plant. Dydy plant ddim yn cael eu cam-drin yn rhywiol o'u gwirfodd a dydyn nhw ddim yn gallu caniatáu i rywun eu cam-drin. Maen nhw'n cael eu gorfodi neu'u cymell. Mae Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn cynnwys:



- Cyfnewid gweithgaredd rhywiol am arian
- Creu lluniau amhriodol
- Magu/meithrin perthynas amhriodol
- Masnachu plant

Mae codi ymwybyddiaeth ymhlith plant a phobl ifainc yn rhan bwysig o'r broses o'u haddysgu i aros yn ddiogel ac i ddweud wrth oedolyn arall. Dylid bod yn rhan o addysg Rhyw a Pherthnasau. Gall camfanteisio fod ar-lein ac all-lein.

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**
Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)

**Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol**
Diogelu Plant rhag Camfanteisio Rhywiol | LLYW.CYMRU

**Camfanteisio Troseddol ar Blant**

Mae camfanteisio'n droseddol ar blant yn fath o gam-drin plant sy'n galw am gamau diogelu. Mae plant sy'n destun camfanteisio'n droseddol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol gan gynnwys symud cyffuriau neu arian sy'n arwain at fudd personol i unigolyn, grŵp neu gang troseddol cyfundrefnol. Dydy plant ddim yn cael eu cam-drin yn droseddol o'u gwirfodd a dydyn nhw ddim yn gallu caniatáu i rywun eu cam-drin. Mae camfanteisio'n droseddol yn cynnwys:

- Elfen o gyfnewid sy'n ecsbloetio'r plentyn, hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol.

- Gall gynnwys dulliau cydymffurfio sy'n defnyddio grym a/neu ddenu ac yn aml mae trais neu fygythiadau o drais yn cyd-fynd ag ef.
- Nodwedd amlycaf y dull yma yw anghydbwysedd pŵer o blaid y rhai sy'n cyflawni'r camfanteisio.

Mae'r math yma o gamdriniaeth yn gysylltiedig â llinellau cyffuriau. Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod llinellau cyffuriau yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol trefnedig sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un neu ragor o ardaloedd mewnforio yn y DU, gan ddefnyddio llinellau ffonau symudol penodol neu fath arall o "linell delio". Maen nhw'n debygol o gam-fanteisio ar blant ac oedolion agored i niwed i symud ac i storio'r cyffuriau a'r arian, a byddant yn aml yn defnyddio gorfodaeth, bygythiadau, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau (Camfanteisio Troseddol ar blant ac Oedolion sydd mewn perygl: Canllawiau Llinellau Cyffuriau; Swyddfa Gartref 2017). Os ydych yn amau bod plentyn yn ymwneud â Llinellau Cyffuriau, dylech ffonio 101 a gwneud atgyfeiriad diogelu.

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**
[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)](#)

**Camfanteisio troseddol ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed: llinellau cyffuriau**



[Camfanteisio troseddol ar blant ac oedolion sy'n agored i niwed: llinellau cyffuriau - GOV.UK (www.gov.uk)](#)

**Diffinio Camfanteisio Troseddol ar Blant**
[Diffinio Camfanteisio Troseddol ar Blant | Cymdeithas y Plant (childrenssociety.org.uk)](#)

**Camfanteisio Troseddol a gangiau**
[Camfanteisio Troseddol a gangiau | NSPCC](#)

**Caethwasiaeth Fodern/Masnachu Plant**

Mae Masnachu Plant yn cynnwys 3 cydran: -

- Gweithredu: recriwtio, cludo, llochesu plentyn sy'n cynnwys elfen o symud o un lle i'r llall.
- Camfanteisio: Mae tystiolaeth neu achos rhesymol i gredu bod plentyn yn dioddef camdriniaeth drwy gamfanteisio rhywiol, camfanteisio troseddol, llafur gorfodol neu gaethwasanaeth domestig, caethwasiaeth, ecsbloetio ariannol, mabwysiadu anghyfreithlon, tynnu organau'r plentyn.
- Ac yn ymwneud â phlentyn sy'n iau nag 18 oed.

Mae gan Ganllawiau Arfer Cymru Gyfan restr o ddangosyddion y dylai ymarferwyr fod yn effro iddyn nhw ac os oes ganddyn nhw unrhyw bryderon uniongyrchol am blentyn, dylen nhw roi gwybod i'r gwasanaethau brys drwy ffonio 999 a gwneud atgyfeiriad i'r Gwasanaethau i Bant. Os oes arwyddion y gallai'r plentyn fod yn ddioddefwr posibl o gaethwasiaeth fodern/masnachu pobl, dylid gwneud penderfyniad aml-asiantaeth i benderfynu a oes angen ffurflen atgyfeirio y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol (MAC). Yn unol â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 dylai dioddefwyr masnachu pobl neu gaethwasiaeth gael eu cyfeirio at y MAC.

Sefydlwyd y gwasanaeth yma i adnabod a chefnogi dioddefwyr masnachu pobl yn y DU. Bydd Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol yn darparu cymorth arbenigol i blant sy'n cael eu masnachu.

**CanllawYmaArfer Cymru Gyfan**
[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)]

**Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern: atgyfeirio**
[Dioddefwyr Caethwasiaeth Fodern: atgyfeiriad - GOV.UK (www.gov.uk)]

**Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol**
[Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol | ECPAT DU]

**Plant wedi'u masnachu**
[Plant wedi'u masnachu | Barnardo's (barnardos.org.uk)]

**Canllawiau dros dro ar gyfer Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol** [42]

[Canllawiau dros dro ar gyfer Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol - GOV.UK (www.gov.uk)]

**Masnachu Plant**
[Yr hyn y mae angen i chi ei wybod am fasnachu plant | Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)]

**Ymddygiad Rhywiol Niweidiol a rhwng Cyfoedion**
Gall plant fod yn fygythiad i blant eraill. Weithiau gall perthnasau rhwng plant fod yn gymhellol, yn amhriodol neu'n gamfanteisiol. **Mae** angen diwallu anghenion amddiffyn plant ac anghenion gofal a chymorth holl blant yn y sefyllfaoedd yma. Mae Goleuadau Traffig Brook Advisory yn adnodd y mae modd ei ddefnyddio i'ch helpu chi i adnabod a diffinio ymddygiad Rhywiol Niweidiol.

https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-10/canllawiau-i-leoliadau addysg-am-gam-drin-rhywiol-camfanteisio-ac-ymddygiad-rhywiol-niweidiol-gan-gyfoedion.pdf

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**
[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)]

Offeryn Goleuadau Traffig Brook

**Secstio a Delweddaeth wedi'i gynhyrchu gan yr unigolyn**
Secstio: Ymateb i achosion a diogelu disgyblion
[Pecyn Adnoddau Secstio mewn Ysgolion]

**Delweddau Anweddus o Blant: canllawiau i bobl ifainc**
[Delweddau Anweddus o Blant: canllawiau i bobl ifainc - GOV.UK (www.gov.uk)]

**Cyngor y DU dros Ddiogelwch ar y Rhyngrwyd: Ymateb i ddigwyddiadau a diogelu plant a phobl ifainc**
[sharing-nudes-and-semi-nudes-guidance-for-education-settings-in-wales-final-english-011220.pdf (gov.wales)]

**Plant sydd ar goll o'u cartref neu leoliad gofal**

Mae'r rhesymau pam mae plant yn mynd ar goll yn amrywiol, yn gymhleth ac yn unigryw i blant unigol. I gael arweiniad ar sut i ymateb pan nad oes modd dod o hyd i blentyn, cyfeiriwch at Ganllaw Arfer Cymru Gyfan.

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**



[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)]

**Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches (UASC)**

Dylai'r plant a'r bobl ifainc yma gael eu hystyried yn blant yn gyntaf a mewnfudwyr yn ail. Gall plant ddod i mewn i'r wlad yn rhan o deulu, gyda gwarcheidwad sy'n oedolyn, neu hyd yn oed ar eu pennau eu hunain, gan eu gwneud yn fwy agored i niwed. Efallai eu bod wedi gweld neu wedi profi digwyddiadau trawmatig, dioddef colled neu wynebu rhwystrau iaith neu gyfathrebu.

[Plant ar eu pen eu hunain yn ceisio lloches: canllawiau i weithwyr proffesiynol | LLYW.CYMRU]

**Plant o grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME)**

Mae gwahaniaethau diwylliannol wrth fagu plant ond dydy 'diwylliant' ddim yn esgus dros niweidio plentyn. Mae angen bod yn glir ynghylch gwahaniaethau rhwng arferion diwylliannol penodol nad ydyn nhw'n niweidiol, ac achosion o gam-drin a all fod yn gysylltiedig â chredoau diwylliannol neu grefyddol.

[Disgyblion o leiafrifoedd ethnig | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

**Bwlio**

Mae gan bob person yr hawl i ddysgu, heb ofni cael ei fwlio, pa ffurf bynnag y gall y bwlio'i chymryd. Mae seiber-fwlio ar gynnydd ac yn cynnwys negeseuon testun, sylwadau ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon negeseuon e-bost maleisus. Mae'n bwysig bod ysgolion â diwylliant lle mae pawb yn ddiogel ac yn cael ei gynnwys, a bod yr ysgol yn ymyrryd ar unwaith i roi terfyn ar fwlio.

[Bwlio yn yr ysgol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

[Bwlio - Comisiynydd Plant Cymru (complantcymru.org.uk)]

**Cam-drin Plant yn ymwneud â diwylliant, crefydd, neu ofergoeliaeth**

**Diwylliant**

Wrth feddwl am ddiogelu plant rhag camdriniaeth sy’n ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd neu ofergoeliaeth, mae’n bwysig cael rhywfaint o ddealltwriaeth o sut mae diwylliant a thraddodiad yn dylanwadu ar ymddygiadau ac arferion penodol. P’un a yw pobl yn byw mewn cymunedau sefydledig neu newydd gyrraedd Cymru, mae cynnal traddodiadau, diwylliant a chrefydd eu cartref yn gwbl bwysig a bydd teuluoedd yn aml yn dymuno trosglwyddo’r gwerthoedd hyn i’w plant. Yn y cyd-destun yma rhaid cofio nad yw cam-drin plant byth yn dderbyniol mewn unrhyw gymuned, diwylliant neu grefydd, o dan unrhyw amgylchiadau.

**Cam-drin yn seiliedig ar anrhydedd**



Mae trosedd anrhydedd yn ymwneud â cham-drin a/neu drais, gan gynnwys llofruddiaeth, a gyflawnir gan bobl sydd am amddiffyn enw da eu teulu neu gymuned. Gall hefyd fod ar ffurf brawychu, rheolaeth orfodol neu flacmel.

**Priodas dan orfod**

Mae priodas dan orfod yn arfer diwylliannol annerbyniol; mae'n gam-drin plant ac yn fath o drais yn erbyn menywod a merched. Mae priodas dan orfod yn anghyfreithlon yn y DU. At ddiben y gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr, mae priodas dan orfod yn un sy’n digwydd heb gydsyniad llawn a rhydd yr un neu’r ddau sy'n priodi.

[Priodas dan orfod: canllawiau i weithwyr proffesiynol | LLYW.CYMRU]

[Trais ar sail anrhydedd a phriodas dan orfod | LLYW.CYMRU]

**Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)**

Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod hefyd yn cael ei adnabod fel Enwaedu Benywod neu Doriad Organau Rhywiol Merched (FGC) ac mae'n arfer diwylliannol traddodiadol. Mae'r driniaeth yn achosi canlyniadau iechyd tymor byr a thymor hir difrifol, gan gynnwys anawsterau gyda genedigaeth, achosi perygl i'r fam a'r plentyn a phroblemau iechyd meddwl. Does dim unrhyw fanteision iechyd yn gysylltiedig ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, ac mae'n achosi niwed sylweddol.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi llunio canllawiau amlasiantaeth sy'n amlinellu'r camau y dylai gweithwyr proffesiynol yn y rheng flaen, megis athrawon, gweithwyr iechyd, swyddogion yr heddlu a gweithwyr cymdeithasol, eu cymryd er mwyn diogelu merched a menywod a chynnig y cymorth priodol iddyn nhw. Mae rhoi gwybod am achosion o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn ddyletswydd orfodol fel y nodir yn Neddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003.

Yn y DU, mae pob math o Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod5 yn anghyfreithlon o dan Ddeddf Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod 2003. Mae'n drosedd i wneud y canlynol (ni waeth beth fo cenedligrwydd na statws preswylio'r merched):

- cyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn y DU
- helpu i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod yn y DU
- helpu merch i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod arni hi ei hun yn y DU
- helpu rhywun y tu allan i'r DU, i gynnal Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod y tu allan i'r DU ar rywun o'r DU neu sy'n preswylio'n barhaol yn y DU (a chithau

yn y DU)

Yn ogystal â hynny, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n drosedd i unrhyw un o'r DU, neu unrhyw un sy'n byw yma'n barhaol, wneud y canlynol:

- cyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod dramor 45

- helpu rhywun o'r DU, neu rywun sy'n byw yma'n barhaol, i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod dramor - mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor er mwyn goddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
- helpu rhywun sydd ddim yn dod o'r DU i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod ar ferch neu fenyw sy'n dod o'r DU neu'n byw yma'n barhaol - mae hyn yn cynnwys mynd â merch dramor er mwyn goddef AnffurfioOrganau Cenhedlu Benywod; a
- helpu merch i gyflawni gweithred Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod arni hi ei hun y tu allan i'r DU, mewn gwledydd ble mae hynny'n gyfreithlon.

Os bydd unrhyw wybodaeth neu bryderon sy'n awgrymu fod plentyn mewn perygl o oddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, neu ei bod wedi'i goddef eisoes, dylai arwain yn syth at atgyfeiriad diogelu plentyn.

Os oes gyda chi bryderon fod merch neu fenyw ifanc yn cael ei chludo dramor er mwyn goddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, cysylltwch â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad. Mae FORWARD yn sefydliad yn y DU sy'n cynnig cymorth, gwasanaeth cwnsela a man diogel i ferched a menywod fel bod modd iddyn nhw siarad am eu profiadau. Yn ogystal â hynny, mae modd iddyn nhw addysgu teuluoedd, a gweithio gyda nhw, er mwyn atal Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod rhag digwydd i unrhyw ferched eraill sy'n rhan o'r teulu.

Mae gan y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) linell gymorth 24 awr ar gyfer unrhyw un sy'n bryderus fod plentyn am oddef Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, neu wedi goddef hynny. Ffoniwch 0800 028 3550 neu e-bostiwch fgmhelp@nspcc.org.uk
Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod: canllawiau i weithwyr proffesiynol | LLYW.CYMRU

**Cam-drin Plant yn gysylltiedig â ffydd neu gred**

Dydy cam-drin neu esgeuluso plant sy’n gysylltiedig â ffydd neu gred ddim wedi’i gyfyngu i un ffydd, cenedligrwydd, grŵp ethnig neu gymuned. Dydy pawb sydd â chred o'r un fath ddim yn mynd ymlaen i niweidio plant. Fodd bynnag, gall rhai credoau ac ofergoelion arwain at gam-drin plant ac mae achosion o hynny wedi digwydd yn y gorffennol.

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan**
Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)

## ATODIAD 4

### Siart Llif Atgyfeirio

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**Merthyr Tudful**

**Rhondda Cynon Taf**

**ATODIAD 5**

**Polisi Ymwelwyr a Siaradwyr Allanol**

**Cyflwyniad**

Mae gan ysgolion ddyletswydd gofal gyfreithiol dros iechyd, diogelwch a lles disgyblion a staff ar bob adeg. Mae'r ddyletswydd gofal yn ymgorffori'r ddyletswydd i ddiogelu disgyblion rhag unrhyw fath o niwed, cam-drin neu niwsans. Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu ac Uwch Arweinwyr yw hi i ofalu y caiff y ddyletswydd ei chyflawni bob amser.

Mae ysgolion yn gofyn i ymwelwyr, felly, gydymffurfio â'r polisi a'r gweithdrefnau canlynol.

**Cyfrifoldeb**

Mae'r Pennaeth yn gyfrifol am weithredu, cydlynu ac adolygu'r polisi yma. Bydd ef/hi hefyd yn gyfrifol am gysylltu â'r Blaen Swyddog Diogelu Plant dynodedig fel sy'n briodol.

**Nod**

Diogelu'r holl blant mae ysgolion yn gyfrifol amdanyn nhw yn ystod oriau ysgol ac yn ystod gweithgareddau allgyrsiol mae'r ysgolion yn eu trefnu. Y prif nod yw sicrhau bod modd i ddisgyblion ddysgu a mwynhau profiadau allgyrsiol mewn amgylchedd diogel.

**Amcanion**

Rhoi protocol a gweithdrefn clir ar waith ar gyfer caniatáu ymwelwyr allanol i'r ysgol sy'n cydymffurfio â chanllawiau amddiffyn a diogelu plant y mae holl staff, llywodraethwyr, ymwelwyr a rhieni yn eu deall.

**Lle ac i bwy mae'r polisi'n berthnasol**

Mae'r ysgolion yn gyfrifol am ddisgyblion ar safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol cyffredin, yn ystod gweithgareddau allgyrsiol ac ar weithgareddau oddi ar y safle y mae'r ysgolion yn eu trefnu a'u goruchwylio.

Mae'r polisi yn berthnasol i'r unigolion canlynol:

- Holl staff addysgu a staff eraill mae'r ysgol yn eu cyflogi
- Holl ymwelwyr allanol sy'n mynd ar safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol neu ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol



- Holl aelodau'r Corff Llywodraethu
- Holl rieni a gwirfoddolwyr
- Holl ddisgyblion
- Staff addysg perthnasol eraill (staff ymgynghori'r Awdurdod Lleol, arolygwyr)
- Staff adeiladu a chynnal a chadw a holl gontractwyr annibynnol eraill sy'n ymweld â safle'r ysgol
- Contractwyr annibynnol sy'n cludo disgyblion ar fysiau mini neu mewn tacsis

**Ymwelwyr i'r Ysgol**

Cyn estyn gwahoddiad i ymwelwyr i'r ysgol, rhaid rhoi gwybod i'r ysgol, y pennaeth neu aelod o'r Uwch Dîm Reoli. Rhaid esbonio perthnasedd a phwrpas yr ymweliad a dyddiad ac amser bwriadedig yr ymweliad. Rhaid i aelod o'r uwch dîm rheoli roi caniatâd cyn gofyn i ymwelwyr ddod i'r ysgol. Bydd y pennaeth yn rhoi cyngor ar lefel yr oruchwyliaeth a'r archwiliadau cyn ymweliad sydd eu hangen:

- Yn gyntaf, rhaid i'r ymwelydd fynd i'r dderbynfa. Dyw ymwelwyr ddim yn cael mynd i mewn i'r ysgol drwy unrhyw fynedfa arall.
- Wrth y dderbynfa, rhaid i'r ymwelydd nodi diben ei ymweliad, a phwy sy wedi estyn gwahoddiad iddo. Bydd yr aelod o staff sy'n derbyn yr ymwelydd yn cadarnhau hyn.
- Bydd gofyn i bob ymwelydd lofnodi llyfr cofnodi. Caiff ei gadw wrth y dderbynfa bob amser.
- Bydd gofyn i ymwelwyr, gan gynnwys contractwyr, wisgo bathodyn adnabod. Rhaid rhoi gwybod iddyn nhw am weithdrefnau gwacáu. ▪ Sicrhewch fod ymwelwyr yn cydymffurfio â'r polisi dim ysmygu. ▪ Rhaid rhoi gwybod i'r swyddfa am bob damwain. Yno, mae modd llenwi ffurflen damweiniau.
- Caiff ymwelwyr eu hebrwng i'r person cyswllt NEU bydd y person cyswllt yn dod i'r dderbynfa. Bydd y person cyswllt yn gyfrifol am yr ymwelydd tra'i fod ar y safle. Arfer gorau yw i ymwelwyr gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, er nid polisi cyfredol yr Awdurdod Lleol yw gwneud

hyn.

**Gadael yr Ysgol**

Dylai ymwelwyr adael yr ysgol drwy'r dderbynfa a:

- Nodi'u dyddiad gadael yn y llyfr cofnodi ger eu hamser cyrraedd
- Dychwelyd bathodyn adnabod i'r dderbynfa
- Dylai aelod o staff eu hebrwng i faes parcio'r staff (gan sicrhau nad ydyn nhw'n dod yn ôl i safle'r ysgol - sy'n torri gweithdrefnau diogelwch)

**Ymwelwyr Anhysbys/Heb Wahoddiad i'r Ysgol**



Dylid herio (mewn modd cyfeillgar) unrhyw ymwelydd sy ddim yn gwisgo bathodyn adnabod i holi pwy ydyw a'r hyn mae'n ei wneud ar safle'r ysgol.

Dylid yna'i hebrwng i'r dderbynfa er mwyn iddo dorri'i enw yn y llyfr cofnodi a chael bathodyn adnabod. Bydd y gweithdrefnau o dan 'Ymwelwyr i'r Ysgol' uchod yn berthnasol.

Os bydd yr ymwelydd yn gwrthod cydymffurfio, dylid gofyn iddo adael y safle ar unwaith a dylid rhoi gwybod i'r Pennaeth (neu'r Uwch Swyddog Dynodedig os nad yw'r Pennaeth ar gael) heb oedi.

Bydd y Pennaeth neu'r Uwch Swyddog Dynodedig yn ystyried y sefyllfa ac yn penderfynu a ddylid rhoi gwybod i'r Heddlu.

Os yw'r ymwelydd yn ymddwyn mewn modd ymosodol neu dreisgar, gofynnwch iddo adael y safle ar unwaith. Rhowch rybudd iddo - os na fydd yn gadael safle'r ysgol, byddwch chi'n ffonio'r heddlu.

**Datblygiad Staff**

Yn rhan o'u sesiwn ymsefydlu, bydd staff newydd bob tro yn cael gwybod am y polisi ar gyfer ymwelwyr allanol a byddwn ni'n gofyn iddyn nhw gydymffurfio â'r gweithdrefnau.

Bydd y polisi yma ar gael i staff a rhieni ar y wefan, a bydd hefyd yn rhan o'r Llawlyfr Staff.

**Rhestr o Ymwelwyr Cymeradwy**

Bydd gan yr ysgol restr o ymwelwyr cymeradwy ar gyfer yr ymwelwyr hynny sy'n ymweld â safle'r ysgol yn rheolaidd i wneud gwaith yn yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys contractwyr a staff cyflenwi a theithiol. Er mwyn ychwanegu ei enw i'r rhestr, rhaid i'r ymwelydd ddangos tystiolaeth ei fod:

- Wedi cael gwiriad manwl y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a bod copi ohono ar Gofnod Canolog yr Ysgol;
- Wedi cael gwiriad gwahardd plant y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd;
-

RHAID i ymwelwyr sydd ar y rhestr gymeradwy ddilyn yr un gweithdrefnau wrth fynd i mewn i'r ysgol (h.y. mynd at y dderbynfa a llenwi'r llyfr cofnodi).

Bydd copi o'r rhestr o ymwelwyr cymeradwy yn cael ei gadw wrth y dderbynfa bob amser.

**Siaradwyr Allanol**

Yn ôl y gyfraith, rhaid i bob ysgol ddysgu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, corfforol a meddyliol disgyblion, a'u paratoi tuag at gyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau. Rhaid iddyn nhw hefyd hyrwyddo



cydlyniad cymunedol. Mae ysgolion yn cydnabod bod ymwelwyr a sefydliadau allanol yn cyfrannu'n fawr a'u bod yn hynod werthfawr.

**Mae canllaw gan Strategaeth Gwrth-frawychiaeth *Prevent* , a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2015, yn nodi cyfrifoldebau 'awdurdodau penodol', sy'n cynnwys ysgolion '[to have] due regard to the need to prevent people from being drawn into terrorism'. Wrth gyflawni'r ddyletswydd, mae gofyn i ysgolion ddangos y protocolau clir ar gyfer sicrhau bod siaradwyr gwadd, y mae staff neu'r disgyblion yn eu gwahodd, yn briodol a'u bod yn cael eu goruchwylio'n briodol.**

Dylai ysgolion sefydlu mannau diogelu lle bo modd i blant a phobl ifainc ddeall a thrafod pynciau sensitif, gan gynnwys brawychiaeth a syniadau eithafol sy'n rhan o ideoleg brawychwyr, a dysgu sut i herio'r syniadau yma. Nid bwriad dyletswydd Prevent yw cyfyngu trafodaeth ar y materion yma. Dylai ysgolion, fodd bynnag, fod yn effro i'w dyletswyddau presennol i wahardd egwyddorion gwleidyddol a sicrhau cydbwysed o ran materion gwleidyddol. Mae adrannau 406 a 407 o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod y dyletswyddau yma ar ysgolion a gynhelir.

Bydd raid i ysgolion benderfynu p'un ai yw siaradwyr gwadd yn briodol neu'n addas. Ar brydiau, mae'n bosibl y bydd angen i ysgolion archwilio cefndir neu gynnal gwiriadau. Os yw ysgolion yn ei chael hi'n anodd, dylen nhw gysylltu â'r Awdurdod Lleol am gyngor a chymorth.

**Arweiniad penodol ar gyfer aelodau o staff sy'n trefnu ymweliadau gan asiantaethau a siaradwyr allanol**

Dylai holl aelodau o staff ysgol sy'n trefnu ymweliadau gan asiantaethau a siaradwyr allanol ddilyn y gweithdrefnau canlynol:

- Cyn yr ymweliad, rhaid i'r trefnydd drafod â'r ymwelydd sut bydd ei sesiwn yn gwella profiad dysgu'r disgyblion.
- Sicrhau bod deilliannau dysgu'r ymwelydd/asiantaeth allanol yn ategu rhaglenni neu gynlluniau gwaith yr ysgol, a'u bod yn unol â pholisïau'r ysgol.
- Byddwch yn hyderus bod gan yr ymwelydd/asiantaeth allanol yr arbenigedd angenrheidiol yn y pwnc maen nhw'n ei gyflwyno, a bod ganddo/ganddi y profiad a'r sgiliau angenrheidiol i gyflwyno sesiynau sy'n briodol i'r oedran ac yn gywir o ran eu ffeithiau.
- Trafodwch a chytuno ar y nodau/deilliannau dysgu dymunol, a'r ffiniau

proffesiynol - mae hyn yn cynnwys y cyfrifoldeb sy ganddo/ganddi i ddisgyblu'r dosbarth.

- Rhoi'r holl wybodaeth i bob ymwelydd/asiantaeth allanol i sicrhau bod pob disgybl yn cael ei gynnwys. Mae'n bosibl bod hyn yn cynnwys oedran a chymhareb, cefndir, ethnigrwydd a diwylliant disgyblion, yn ogystal ag anghenion addysgol arbennig (os yw'n berthnasol).
- Rhowch ddolen gyswllt i bob ymwelydd.



- Sicrhau bod y gweithgaredd yn diwallu canllawiau Iechyd a Diogelwch. Cynnal asesiad risg o'r gweithgaredd/sesiwn os yw'n addas.
- Rhaid i staff sicrhau bod ymwelwyr yn effro i weithdrefnau diogelu'r ysgol a bod modd iddyn nhw weld polisïau fel Amddiffyn a Diogelu Plant ac Asesiadau Risg.
- Rhaid i holl staff roi gwybod i'r staff ysgol perthnasol o'r ymweliad bwriadedig a chylch gwaith yr ymwelydd, e.e. pennaeth, staff y swyddfa. ▪ Sicrhau bod yr aelodau o staff perthnasol, e.e. athro/athrawes dosbarth, yn bresennol yn ystod y sesiwn am ei fod ef/ei bod hi'n gyfrifol am ddisgyblu, monitro a gwerthuso'r dosbarth.
- Sicrhau bod disgyblion yn cael y cyfle i fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu.

Rhaid i siaradwyr allanol ac ymwelwyr sicrhau eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth y DU. Golyga hyn fod rhaid i siaradwyr ac ymwelwyr sicrhau nad yw'u safbwyntiau neu'u syniadau, na sut maen nhw'n eu mynegi, yn tresmasu ar hawliau eraill neu'n camwahaniaethu yn eu herbyn nhw. Ddylai'r hyn maen nhw'n ei ddweud, a'r ffordd maen nhw'n ei ddweud, ddim torri'r gyfraith, bygwth trefn gyhoeddus, bygwth iechyd a diogelwch unigolion, annog eraill i dorri'r gyfraith, neu fod yn groes i hawliau sifil a dynol unigolion. **Mae'n drosedd annog casineb yn erbyn pobl eraill ar sail crefydd neu hil.**

Bydd ymwelwyr yn cael gwybod am eu cyfrifoldeb i ufuddhau i'r gyfraith, a pholisïau amrywiol yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys:

- Peidio â mynd yn groes i werthoedd democrataidd sylfaenol Prydain nai'i threfnau llywodraethu, rhyddid unigolion na pharch a goddefgarwch ar gyfer y rheiny sydd â ffydd neu gredoau gwahanol;
- Peidio ag annog casineb, trais neu alw am dorri'r gyfraith;
- Peidio ag annog, mawrygu neu hyrwyddo gweithredoedd brawychiaeth, gan gynnwys unigolion, grwpiau neu sefydliadau sy'n annog gweithredoedd o'r fath; a
- Peidio â lledaenu eithafiaeth, radicaliaeth, casineb nac anoddefgarwch yn y gymuned ysgol, ac felly cyfrannu at aflonyddu ar gytgord cymdeithasol a chymunedol.

Os bydd siaradwyr neu ymwelydd allanol yn mynd yn groes i'r canllaw yma, bydd yr ysgol yn cadw'r hawl i ddod ag achlysur i ben a gwahardd y siaradwr neu'r ymwelydd o'r safle.

**Yr ysgol sy'n penderfynu caniatáu neu wrthod i'r unigolyn siarad.**

**Ystafelloedd Gweddi**

Does dim gofyn i ysgolion gynnig cyfleusterau ar wahân ar gyfer gweddïo. Serch hynny, mae nifer o ysgolion yn cydnabod ei fod yn arfer da cynnig cyfleuster ar gyfer disgyblion neu staff o grefydd neu gred benodol. Drwy wneud hynny, bydd ysgolion



yn dangos eu bod yn ymwybodol o amrywioldeb eu cymunedau, ac yn dangos parch tuag atyn nhw.

Bydd cyngor blaenorol am siaradwyr allanol yn berthnasol a dylai ysgolion sicrhau eu bod yn gwybod am yr hyn sy'n digwydd mewn ystafelloedd gweddi. Dylai aelodau o staff fod ar gael bob amser i oruchwylio ystafelloedd gweddi.
Dim ond yn Gymraeg a Saesneg y dylid arddangos arwyddion a phosteri yn ymwneud â gweddïo neu grefydd.

**Cyngor yr Awdurdod Lleol**

Anogir ysgolion i gysylltu â Charfan Uwch Reolwyr/Carfan Diogelu yr Awdurdod Lleol os oes gyda nhw bryderon yn ymwneud â siaradwyr allanol. Rhowch ddigon o amser i gynnal gwiriadau.

Mae proses **Channel** wedi'i sefydlu yn rhan o elfen **'Prevent' o Strategaeth Gwrthfrawychiaeth 'Contest' Llywodraeth y DU.**

Mae proses 'Channel' yn cynnig y mecanwaith i:

- Adnabod unigolion a grwpiau sy mewn perygl o gael eu denu i weithredoedd brawychiaeth.
- Asesu natur a gradd y risg a bregusrwydd.
- Atgyfeirio achosion i banel amlasiantaeth er mwyn datblygu'r pecyn cymorth mwyaf priodol i ddiogelu'r rheiny sy mewn perygl.

**Serch hynny, os yw aelod o staff o'r farn bod plentyn neu blant mewn perygl uniongyrchol, rhaid ffonio'r heddlu ar 999. Os ydych chi o'r farn bod plentyn/plant mewn perygl o niwed sylweddol, rhaid llenwi ffurflen C1 a'i hanfon i Hwb Diogelu Amlasiantaeth/y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn unol â'r broses a amlinellir ym Mholisi Diogelu Plant Ysgolion. Yn ogystal â hyn, mae angen atgyfeiriad deuol at y Gwasanaeth Gwrthderfysgaeth gan ddefnyddio ffurflen atgyfeirio Prevent ar-lein y cyfeirir ati yn adran 8 o fodel Polisi Diogelu Ysgolion Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg.**

Mae hyn yn ymwneud â phob pryder mewn perthynas â phlant a phobl

ifainc. **Polisïau Cysylltiedig**

Dylid darllen y polisïau a'r gweithdrefnau ar y cyd â pholisïau perthnasol eraill, gan gynnwys:

- Polisi Diogelu ac Amddiffyn Plant
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Recriwtio Mwy Diogel Cyngor

Merthyr Tudful

- Polisi Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Recriwtio Mwy Diogel Cyngor Rhondda Cynon Taf 53

- Polisi Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr 54

**ATODIAD 6**

**Canllawiau ar drosglwyddo dogfennau Amddiffyn Plant**

Er mwyn galluogi pontio llyfn rhwng ysgolion mae angen anfon yr holl ddogfennau Amddiffyn Plant i'r sefydliad addysgol perthnasol. Bydd hyn yn sicrhau bod ysgol newydd y plentyn yn effro i'w **holl** anghenion.

*'Where children leave the establishment ensure the child protection [safeguarding] file is copied for the new establishment as soon as possible but transferred separately from the main pupil file, ensuring a secure transit and confirmation of receipt should be obtained.'*
*(Atodiad B: Keeping Children Safe in Education – Statutory Guidance for Schools and Colleges – Gorffennaf 2015)*

**Cyflwyniad**

Mae'r canllawiau statudol o ran Rhan 7 (Diogelu) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn datgan fod "pawb yn gyfrifol am gadw plant yn ddiogel". Rhaid i awdurdod lleol roi trefniadau ar waith sy'n annog y swyddogion perthnasol i gydweithio, gan gynnwys y swyddogion hynny ym maes addysg.

Cynhaliodd Brandon *et al* (2013) astudiaeth o'r enw 'New Learning from Serious Case Reviews: a two year report 2009-11'. Nododd yr astudiaeth yma fod argaeledd gwybodaeth gyflawn, gywir a hygyrch yn thema gyson gan bob asiantaeth. Roedd yr angen i rannu gwybodaeth yn well o fewn asiantaethau, a rhyngddyn nhw, yn rhan hanfodol o'r argymhellion a gafodd eu gwneud.'

Dydy Deddf Diogelu Data 1998 ddim yn atal pobl rhag rhannu gwybodaeth, ond mae'n darparu fframwaith er mwyn sicrhau y caiff gwybodaeth bersonol ei rhannu mewn modd priodol.

Mae cadw cofnodion manwl yn rhan hanfodol o arfer da ym maes amddiffyn plant. Dylai pob aelod o staff wybod fod angen iddyn nhw rannu eu pryderon ynglŷn â phlentyn neu blant gyda'r ysgol neu'r lleoliad addysg. Mae'r Uwch Swyddog Dynodedig (DSP) yn gyfrifol am gofnodion o'r fath, yn ogystal â'r ffeil amddiffyn/diogelu plant. Mae cyfnodau pontio yn gyfle i ni gynllunio a rhannu gwybodaeth mewn modd gofalus a rhagweithiol. Os caiff hyn ei wneud yn iawn, yna bydd modd sicrhau bod disgyblion yn symud rhwng ysgolion yn llwyddiannus ar unrhyw adeg.

**Beth a ddylai fod mewn Ffeil Amddiffyn/Diogelu Plentyn?**



Ystyr Ffeil Amddiffyn / Diogelu Plentyn yw'r cofnod mae'r Uwch Swyddog Dynodedig

yn ei gadw o unrhyw bryderon ynglŷn â lles y plentyn. Dylai'r pryderon yma nodi ffeithiau yn unig, nid barn. Efallai mai dim ond un pryder sydd wedi'i nodi yn y ffeil, neu efallai y bydd hi'n ffeil fawr sy'n nodi hanes sylweddol. Mae'n gofnod o bob pryder sy'n ymwneud â diogelu. Ni waeth beth fo maint y ffeil, rhaid ei hanfon at y lleoliad addysg newydd yn ei chyfanrwydd.

Yr Uwch Swyddog Dynodedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ffeil yn cael ei diweddaru a bod llinell amser o bob achos yn cael ei chofnodi. Ystyr llinell amser yw trosolwg o holl bryderon yr ysgol a manylion am ddigwyddiadau arwyddocaol ym mywyd y plentyn. Ni ddylai gynnwys manylion, dim ond brawddeg sy'n amlinellu'r hyn a ddigwyddodd, pwy oedd ynghlwm â'r digwyddiad a'r hyn a ddigwyddodd o ganlyniad i'r digwyddiad.

Mae modd i gynnwys y ffeil gynnwys y canlynol:

- Manylion sylfaenol
- Llinell Amser
- Ffurflenni Achos Pryder
- Atgyfeiriadau i Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth/Hwb Diogelu Amlasiantaeth
- Deilliannau'r atgyfeiriadau a gafodd eu gwneud
- Gwybodaeth am gam-drin domestig, e.e. hysbysiadau gan yr heddlu
- Gwybodaeth am y Gynhadledd Asesiad Risg Amlasiantaeth (MARAC)
- Cofnodion Cynhadledd Amddiffyn Plant/cyfraniad yr ysgol/cofnodion y grŵp craidd
- Unrhyw asesiadau'r Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifainc
- Cofnodion cyfarfodydd amlasiantaeth

Os caiff adroddiadau gan drydydd parti eu cynnwys yn y cofnodion, dylai awdur yr adroddiadau fod yn effro i'r ffaith y caiff yr adroddiad ei gynnwys yn y ffeil amddiffyn/ddiogelu plentyn.

**Sut i drosglwyddo'r Ffeil Amddiffyn/Diogelu Plentyn**

Pan fydd plentyn yn symud i ysgol arall, dylai'r Uwch Swyddog Dynodedig gysylltu â'r ysgol newydd o fewn pum diwrnod ysgol i roi gwybod iddi am y ffeil amddiffyn/diogelu plentyn. Dylai'r ysgol newydd ofyn i hen ysgol y plentyn a oes ganddo ffeil amddiffyn/diogelu plentyn ac a oes modd ei throsglwyddo fel mater o drefn. Rhaid i'r ffeil gael ei throsglwyddo wyneb yn wyneb neu gael ei hanfon drwy'r post os ar bapur, ei throsglwyddo'n ddiogel os defnyddir system ar-lein, ar yr amod fod hynt y ffeil yn cael ei chofnodi. Dylai'r ffeil gael ei hanfon o fewn pum diwrnod ysgol, ac ar wahân i brif ffeil y plentyn. Rhaid gofalu bod yr holl wybodaeth yn aros yn gyfrinachol a bod y ffeil yn cael ei throsglwyddo yn y modd mwyaf diogel â phosibl. Peidiwch **byth** â gofyn i rieni drosglwyddo ffeiliau o'r fath.

Unwaith bod yr ysgol flaenorol wedi cael cadarnhad bod yr ysgol newydd wedi derbyn y ffeil, dylai'r ysgol flaenorol ddileu'r holl gofnodion sy'n ymwneud â'r Plentyn



sydd wedi trosglwyddo oni bai bod angen cofnodion ar gyfer ymchwiliad/achos **PARHAUS**.

Ni waeth sut y caiff y ffeil amddiffyn/diogelu plentyn ei throsglwyddo, rhaid cadw

tystiolaeth ysgrifenedig o'r broses drosglwyddo (ffurflen neu ddarn o bapur sydd wedi'i lofnodi gan aelod o staff yr ysgol newydd). Dylai'r hen ysgol gadw'r dystiolaeth yma.

**Cofnodion Amddiffyn Plant Electronig**

Rhaid gosod cyfrinair ar ddogfennau electronig, a rheoli pwy sy'n gallu eu gweld, yn yr un modd â'r cofnodion papur. Dylen nhw fod yn yr un fformat â chofnodion papur (h.y. gyda chronolegau a gynhelir yn dda ac ati) fel eu bod yn gyfredol os/pan fyddant wedi'u hargraffu, os oes eu hangen e.e. ar gyfer y llys. Does dim modd trosglwyddo ffeiliau electronig rhwng ysgolion/darparwyr addysg Ôl-16 oed, oni bai fod system ddiogel ar waith. Unwaith i'r ysgol newydd ddychwelyd y dderbynneb, gan nodi ei bod wedi derbyn y ffeil, dylai'r hen ysgol ei ddileu oni bai bod ei angen ar gyfer ymchwiliad/achos **PARHAUS**.

Yn ogystal â hynny, mae modd cofnodi gwybodaeth am amddiffyn/diogelu plentyn ar System Rheoli Gwybodaeth yr ysgol. Mae gan bob ysgol y gallu i gofnodi a yw plentyn yn destun Cynllun Diogelu Gofal a Chymorth neu'n Blentyn sy'n Derbyn Gofal/Plentyn sydd â Phrofiad o Dderbyn Gofal. Mae modd storio gwybodaeth ychwanegol ar System Rheoli Gwybodaeth Ysgolion (SIMS). Mae modd i ysgolion storio gwybodaeth ychwanegol ar y System Rheoli Gwybodaeth ond rhaid i ysgolion ddefnyddio meddalwedd y System Rheoli Gwybodaeth er mwyn gallu sganio'r dogfennau a'u hatodi ar y system. Rhaid i ysgolion sicrhau eu bod nhw'n cadw'r wybodaeth yma'n gyfrinachol drwy ddewis/gweithredu'r gosodiadau preifatrwydd priodol. Rhaid cadw llinell amser sydd wedi'i diweddaru o hyd.

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Os caiff y disgybl ei dynnu o'r gofrestr i gael ei addysgu gartref, am y cyfnod gofynnol, rhaid i'r ysgol gadw'r ffeil amddiffyn/diogelu plant, oni bai bod y plentyn yn trosglwyddo i ysgol arall ac yna byddai'r ffeil hon yn trosglwyddo i'r ysgol newydd yn unol â'r broses a ddisgrifir uchod.

**Dydy addysgu yn y cartref ynddo'i hun ddim yn bryder diogelu, fodd bynnag, os oes unrhyw bryderon eraill am blentyn a allai fynd yn waeth o ganlyniad i addysgu yn y cartref, yna gallai hyn gyfiawnhau atgyfeiriad Diogelu.**

**Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan:**
[Gofal Cymdeithasol Cymru (diogelu.cymru)]

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**
[Addysg Ddewisol yn y Cartref | Is-bwnc | LLYW.CYMRU]

**Plant sydd ar goll o fyd addysg**



Os bydd plentyn sydd â Chofnod Amddiffyn Plant yn gadael yr ysgol heb nodi ei gyfeiriad newydd, ac os dyw ysgol newydd y plentyn ddim wedi cysylltu â'r ysgol o fewn 10 diwrnod ysgol, rhaid i'r Uwch Swyddog Dynodedig roi gwybod i'r Uwch Swyddog Lles Addysg ym Merthyr Tudful neu'r Gwasanaeth Mynychu'r Ysgol a Lles yn Rhondda Cynon Taf, neu'r Garfan Lles Addysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol i helpu plant a phobl ifanc

rhag colli eu haddysg. Mae'n darparu pecyn cymorth ymarferol i adnabod plant a phobl ifainc sy'n colli addysg.

[Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg]

**Pecyn Cymorth Diogelu Cadw Dysgwyr yn Ddiogel**

Fel ymarfer effeithiol, mae disgwyl i'r Uwch Swyddog Dynodedig sicrhau bod yr adnodd archwilio diogelu yn cael ei gwblhau yn barhaus. Mae'r adnodd yn cefnogi lleoliadau addysg i adolygu eu trefniadau diogelu a nodi cryfderau a gwendidau i sicrhau eu bod yn ymarfer eu rhwymedigaethau diogelu cyfreithiol yn unol â'r canllawiau yma. Mae'r adnodd wedi'i ddatblygu gyda mewnbwn Estyn ac mae'n bodloni'r gofynion y mae Estyn yn eu disgwyl yn ystod yr archwiliad. Serch hynny, dydy'r adnodd ddim i'w gwblhau at ddibenion archwilio yn unig; dylid defnyddio'r adnodd fel asesiad parhaus o fodloni gofynion cyfreithiol. Mae'n bosibl bod gan bob awdurdod ei nodiadau i'w hychwanegu i'r pecyn cymorth gwreiddiol. Mae pecyn cymorth RhCT yn cynnwys rhestr o bolisïau argymelledig y dylai fod gan ysgolion yn eu lle.

[Cadw dysgwyr yn ddiogel | LLYW.CYMRU]



**ATODIAD 7**

**Matrics Hyfforddiant Diogelu**

| Hyfforddiant | Gorfodol? | Ar gyfer pwy | Dull cyflwyno'r hyfforddiant | Pa mor aml? |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ymarferwyr Diogelu Grŵp A | Gorfodol i bob aelod o staff cyn dechrau yn y swydd, neu yn ystod y broses sefydlu | Pob aelod o staff | Mynediad ar-lein drwy [Hyfforddiant Diogelu Grŵp A \| Gofal Cymdeithasol Cymru]<br><br>Neu mae modd hefyd cael mynediad i'r e-ddysgu gorfodol ar y fewnrwyd | Unwaith bob tair blynedd oni bai bod yr ymarferydd yn newid grŵp. |
| Ymarferwyr Grŵp B | Hyfforddiant gorfodol – ar gyfer swyddi newydd, dylai staff gwblhau'r hyfforddiant yma yn ystod y cyfnod prawf (chwe mis cyntaf) | Swyddi sydd wedi'u nodi | Mae'r trefniadau yma'n gwahanol yn y 3 Awdurdod Lleol. Bydd modd i'r Swyddog Arweiniol ar faterion Diogelu ym maes Addysg rannu wybodaeth bellach. | Sesiwn gloywi – rhaid gwneud hyn cyn pen 3 blynedd o'r hyfforddiant cychwynnol/d yddiad adnewyddu |
| Ymarferwyr Grŵp C | Gorfodol ar gyfer Swyddogion Diogelu Dynodedig, a'r rhai sydd â chyfrifoldeb diogelu | Arfer Gorau – Cyfrifoldeb y Pennaeth yw pennu faint o staff Grŵp C sy'n cael eu hyfforddi, a hynny'n seiliedig ar faint yr ysgol | Wedi'i ddarparu gan Wasanaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol Cwm Taf Morgannwg (ysgolion RhCT a Merthyr Tudful) neu Garfan Ymgysylltu ag Addysg CBS Pen-y-bont ar Ogwr (ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr) | Sesiwn gloywi – rhaid gwneud hyn cyn pen 3 blynedd o'r hyfforddiant cychwynnol/d yddiad adnewyddu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Argymhelli r bod o leiaf 2 aelod o staff yn gwneud hynny yn y polisi | | |
| Ymwybyddiaet h 'Prevent' - Cwrs 1 | Gorfodol i'r holl staff<br><br>Arfer gorau - wedi'i gwblhau cyn dechrau yn y swydd neu yn ystod y broses sefydlu<br><br>Hanfodol - wedi'i gwblhau cyn pen 4 wythnos o ddechrau yn y swydd | Pob Aelod o Staff | I gael mynediad i'r cwrs ar-lein defnyddiwch y ddolen - Dechrau'r cwrs ymwybyddiaeth | Unwaith |
| Cwrs gloywi 'Prevent' i'r rhai sydd wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth 1 | Argymhellir bod pob aelod o staff yn cwblhau'r hyfforddiant yn flynyddol | Pob Aelod o Staff | https://www.support-people-susc eptible-to-radicalisation.service.g ov.uk/cy/portal#cwrs-ymwybyddia eth-gloywi | Argymhellir bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant yn flynyddol (yn dilyn cwrs ymwybyddiaet h cwrs 1)<br><br>Gorfodol – bob 2 flynedd (yn dilyn cwrs ymwybyddiaet h 1) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Prevent - Cwrs 2 | Dewisol | Argymhelli r ar gyfer y Swyddog Diogelu Dynodedig a staff eraill sy'n rhan o Grŵp C<br><br>Arfer Gorau – pob aelod o Uwch Dîm Arwain yr ysgol | Hyfforddiant dyletswyddau Prevent: Dysgwch sut i gefnogi pobl sy'n agored i gael eu radicaleiddio \| Hyfforddiant dyletswyddau Prevent (support-people-susceptible-to-ra dicalisation.service.gov.uk/cy) | |
| Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Grŵp 1<br><br>Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Grŵp 2 Gofyn a Gweithredu | Gorfodol<br><br>Dewisol | Pob aelod o staff<br><br>Swyddog Diogelu Dynodedig a staff eraill sy'n rhan o Grŵp C | Cliciwch y ddolen yma<br>Cwrs: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol<br><br>Wedi'i ddarparu gan yr uned hyfforddi | Gorfodol – Bob 3 blynedd<br><br>Argymhellir bod staff yn cwblhau'r hyfforddiant bob 3 blynedd |

- Unwaith y bydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau, dylai staff lawrlwytho'r dystysgrif gwblhau/rhoi'r dystysgrif presenoldeb i'r Swyddog Diogelu Dynodedig neu'r Clerc i'w chofnodi ar system yr ysgol.
- Mae'r Safonau Diogelu Cenedlaethol yn y cael eu cyflwyno ar hyn o bryd, felly mae'r hyfforddiant Lefel 1 yn ddilys am gyfnod o hyd at 3 blynedd ers

cwblhau’r hyfforddiant. Dylai’r staff hynny sy’n rhan o Grŵp A neu B gwblhau’r hyfforddiant Grŵp perthnasol (A neu B) cyn diwedd y cyfnod 3 blynedd yma.

- Yn yr un modd, dylai Swyddogion Diogelu Dynodedig sydd â hyfforddiant Lefel 3 gwblhau’r hyfforddiant cyn diwedd y cyfnod o 3 blynedd. Ni fydd yr



hyfforddiant Grŵp C ar gael ar ddechrau blwyddyn academaidd 2025/26 ond dylai’r hyfforddiant fod ar gael erbyn Ionawr 2026.

- Os nad ydych chi’n sicr pa grŵp y mae aelod o staff yn rhan ohono, mae yna ddogfen ar wahân sy’n amlinellu’r rolau a/neu mae modd i chi siarad â Swyddog Arweiniol y Gyfadran Addysg sy’n gallu darparu cyngor a chymorth.
- Mae’n bosibl y bydd staff sy’n ymuno â’r ysgol yng nghanol y flwyddyn wedi colli’r hyfforddiant Grŵp B yn yr ysgol. Dylen nhw gadw lle ar hyfforddiant Grŵp B cyn gynted a y bo’n ymarferol bosibl gyda charfan hyfforddi’r awdurdod lleol – rhaid i hynny fod o fewn chwe mis o ddechrau yn y swydd.